



NEWPORT
CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS
CASNEWYDD

Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg Medi 2022 – Awst 2032



CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG

Cyngor Dinas Casnewydd



Medi 2022 – Awst 2032

Gwneir y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hwn o dan Adran 84 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac mae'r cynnwys yn cydymffurfio â Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019¹⁻². Rydym wedi rhoi sylw dyledus i'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth bennu ein targedau.

Llofnod:

Sarah Morgan

Dyddiad: 25/01/2022

(Mae angen i'r Cynllun hwn gael ei lofnodi gan y Prif Swyddog Addysg yn eich awdurdod lleol)

¹ [Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg \(Cymru\) 2019](#)

² [Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg \(Cymru\). \(Diwygio\) \(Coronafeirws\) 2020](#)

Cefndir


Mae adran 84 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac mae'n amlinellu bod yn rhaid i Gynllun gynnwys:

- a. cynigion awdurdod lleol ynghylch sut y bydd yn cynnal ei swyddogaethau addysg i:
 - i. wella cynllunio darpariaeth addysg Gymraeg (addysg cyfrwng Cymraeg) yn ei ardal;
 - ii. gwella safonau addysg Gymraeg a safonau addysgu'r Gymraeg fel pwnc yn ei ardal;
- b. targedau'r awdurdod lleol o ran gwella'r gwaith o gynllunio darpariaeth addysg Gymraeg yn ei ardal a gwella safonau'r addysg honno a safonau addysgu'r Gymraeg fel pwnc yn ei ardal;
- c. creu adroddiad ar y cynnydd a wnaed i fwrw targedau'r Cynllun blaenorol neu'r Cynllun diwygiedig blaenorol.

Mae adran 85 Deddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gyflwyno ei Gynllun i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo.

Cyd-destun strategol

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg drafft hwn yn cyd-fynd â pholisiâu a strategaethau Llywodraeth Cymru.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 <i>Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu</i>	
Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol a'r Rhaglen Lywodraethu, Symud Cymru Ymlaen 2016-2021 <i>Bydd pob dysgwr yn gallu defnyddio'r Gymraeg pan fyddant yn gadael yr ysgol.</i>	
Strategaeth Gymraeg genedlaethol Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg <i>Yr uchelgais o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050</i>	
Addysg yng Nghymru: Ein Cenhadaeth Genedlaethol, Cynllun Gweithredu 2017-21 <i>Awydd i ddysgwyr ddod yn fwyfwy dwyieithog ac ymrwymiad i annog athrawon sydd â rhywfaint o allu i siarad Cymraeg i ddatblygu eu sgiliau ymhellach</i>	
Y Gymraeg mewn Addysg, Cynllun Gweithredu 2017-21 <i>Gosod y cyfeiriad ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg</i>	

Crynodeb Gweithredol

Mae gan Gasnewydd weledigaeth ar gyfer y 10 mlynedd nesaf.....

bod "pawb yng Nghasnewydd yn gallu defnyddio, gweld a chlywed y Gymraeg fel iaith fyw ym mhob rhan o fywyd ar draws y ddinas".

"Gweld, Clywed, Dysgu, Defnyddio, Caru"

Mae Llywodraeth Cymru am gael 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 (**Cymraeg 2050**)³ ac felly mae angen i Gasnewydd gael mwy o ddisgyblion sy'n dysgu trwy'r Gymraeg. Gallwn wneud hyn drwy ddefnyddio ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA).

Mae'r CSCA wedi'i rannu'n 7 maes. Ym mhob un o'r meysydd hyn rydym yn dangos lle'r ydym yn awr (gwaelodlin), targed 5 mlynedd a tharged 10 mlynedd:

Deilliant 1: Mae mwy o blant meithrin yn dysgu trwy'r Gymraeg		
Gwaelodlin	Targed 5 mlynedd	Targed 10 mlynedd
5.4% (84)	8.6% (136)	11.1% (175)
o blant meithrin a gynhelir yn dysgu trwy'r Gymraeg ⁴		

Ein nod yw llenwi'r lleoedd meithrin yn ein hysgolion cyfrwng Cymraeg presennol a chreu dros 100 o leoedd newydd ledled y ddinas.

Deilliant 2: Mae mwy o blant dosbarth derbyn yn dysgu trwy'r Gymraeg		
Gwaelodlin	Targed 5 mlynedd	Targed 10 mlynedd
5.7% (113)	8.6% (171)	11.1% (220)
o blant dosbarth derbyn yn dysgu trwy'r Gymraeg		

Er mwyn cyflawni hyn, ein nod yw creu 60 o leoedd derbyn ychwanegol yn ogystal â'r 60 lle sy'n cael eu darparu yn Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli.

Deilliant 3: Mae mwy o ddysgwyr yn gwella'u sgiliau Cymraeg ar ôl symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd		
Gwaelodlin	Targed 5 mlynedd	Targed 10 mlynedd
96%	96%	96%
o ddysgwyr yn gwella'u sgiliau Cymraeg ar ôl symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd		

Rydym am sicrhau bod dysgwyr yn hyderus ac yn deall manteision dewis addysg uwchradd Gymraeg.

³ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf>

⁴ Nid yw'n cynnwys Codi'n 3 oed

Deilliant 4: Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer arholiadau trwy'r Gymraeg		
Gwaelodlin	Targed 5 mlynedd	Targed 10 mlynedd
100% (144)	100% (317)	100% (342)
o ddysgwyr ym Mlynnyddoedd 10-13 yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yn sefyll arholiad trwy'r Gymraeg		
93.6% (1624)	96.2% (1952)	96.3% (1941)
o ddysgwyr yn dilyn TGAU yn y Gymraeg		
144	600	1000
o ddysgwyr yn astudio trwy'r Gymraeg ac yn astudio'r Gymraeg fel pwnc (BI ⁵)		

Rydym am i fwy o ddisgyblion ysgol uwchradd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg sefyll arholiad TGAU Cymraeg fel Ail Iaith a mwy o fyfyrwyr yng Ngholeg Gwent i astudio'n ddwyieithog.

Deilliant 5: Mwy o ddysgwyr yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i ystafell ddosbarth yr ysgol		
Gwaelodlin	Targed 5 mlynedd	Targed 10 mlynedd
0% (0)	75% (30)	100% (40)
o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg wedi cyrraedd Aur mewn Cymraeg Campus ⁶		

Bydd hyn yn helpu i wreiddio'r Gymraeg fel iaith fyw i'n pobl ifanc.

Deilliant 6: Cynnydd mewn dosbarthiadau i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) sy'n dysgu trwy'r Gymraeg		
Gwaelodlin	Targed 5 mlynedd	Targed 10 mlynedd
0	10	20⁷
o leoedd ADY pwrpasol ar gyfer disgyblion sy'n dysgu trwy'r Gymraeg		

Nod darparu 20 o leoedd ADY penodedig mewn ysgolion cynradd Cymraeg yw sicrhau bod y ddarpariaeth hon yn cyd-fynd yn fras â chyfran y lleoedd mewn ysgolion cynradd Saesneg.

Deilliant 7: Mae mwy o athrawon a staff yn gallu addysgu Cymraeg a thrwy'r Gymraeg		
Gwaelodlin	Targed 5 mlynedd	Targed 10 mlynedd
Gweithio i helpu athrawon a staff i ddysgu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer swyddi lle mae angen siarad Cymraeg	Sicrhau bod gan bob ysgol ddigon o staff sy'n gallu siarad Cymraeg pan fo angen	Disgyblion cyfrwng Cymraeg yn dod yn ôl fel athrawon yn Ysgolion Casnewydd
Arolwg i weld pwy sydd â sgiliau Cymraeg mewn ysgolion	Defnyddio canlyniadau'r arolwg i gynllunio'r hyn sydd ei angen arnom	-
6	12	12
Staff Coleg Gwent yn gallu addysgu'n rhugl trwy'r Gymraeg		

Bydd gwaith yn y canlyniad hwn yn cynnwys dadansoddiad o ddata Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgol (CBGY) mewn adolygiadau blynyddol o'r strategaeth hon i ragweld anghenion staffio dros y blynyddoedd i ddod.

⁵ Dysgu wedi'i gwblhau mewn cyd-destun dwyieithog


⁶ <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/siarter-iaith>

⁷ Os oes angen

Cymraeg 2050

Mae Cymraeg 2050 yn cyflwyno gweledigaeth hirdymor ar gyfer Cymru lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Nod y strategaeth yw cynyddu:

- nifer y siaradwyr Cymraeg i 1 miliwn erbyn 2050 a,
- sicrhau bod canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg yn unig, yn cynyddu o 10% (yn 2013–15) i 20% erbyn 2050.



Mae'r taflwybr a ddatblygwyd ar gyfer Cymraeg 2050 yn esbonio mwy am y daith tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg. Ar gyfer y system addysg, mae angen cynyddu cyfran yr holl grwpiau blwyddyn ysgol sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae data ysgolion yn dweud wrthym fod 23% o'r 35,800 o ddysgwyr ym Mlwyddyn 2 wedi'u hasesu yn y Gymraeg (fel mamiaith).


Ledled Cymru, mae angen i hyn gynyddu i:

- 24% erbyn 2020/21
- 30% erbyn 2030/31 (tua 10,500 ym mhob grŵp blwyddyn)
- 40% erbyn 2050 (tua 14,000 ym mhob grŵp blwyddyn).

Yn ogystal â chynyddu cyfran y dysgwyr sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, nod Cymraeg 2050 yw:

- trawsnewid sut mae'r Gymraeg yn cael ei dysgu i bob dysgwr er mwyn sicrhau bod o leiaf 70% o'r dysgwyr hynny'n adrodd erbyn 2050 eu bod yn gallu siarad Cymraeg erbyn iddynt adael yr ysgol; a
- cynyddu nifer yr athrawon cynradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o 2,900 i 3,900 erbyn 2031 a 5,200 erbyn 2050;
- cynyddu nifer yr athrawon uwchradd sy'n gallu dysgu Cymraeg fel iaith o 500 i 900 yn 2031 a 1,200 erbyn 2050; a
- cynyddu nifer yr athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o 1,800 i 3,200 erbyn 2031 a 4,200 erbyn 2050.

Datblygiad Addysg Gymraeg yng Nghasnewydd 2016-2021



Ein gweledigaeth ddeng mlynedd ar gyfer cynyddu a gwella'r broses o gynllunio darpariaeth addysg Gymraeg yn ein hardal

Mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol **osod targed deng mlynedd yn** amlinellu'r cynnydd disgwylidig yn y plant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal yr awdurdod lleol yn ystod oes Cynllun.

Wrth ddatblygu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA), rhoddwyd pob cyfle i aelodau Fforwm Addysg Gymraeg (WEF) Casnewydd gyfrannu at lunio ymrwymiad parhaus y Cyngor i ddatblygu addysg Gymraeg ledled Casnewydd, a bodloni'r targedau a nodir yn Cymraeg 2050. Mae'r Fforwm yn allweddol wrth sicrhau y gellir cyflawni'r targedau uchelgeisiol a amlinellir yn y cynllun hwn, ac mae yna berchnogaeth a rennir ymhlith yr Awdurdod Lleol a phartneriaid felly o ran cyflawni'r cynllun hwn.

Mae'r tabl isod yn dangos targedau rhagnodedig Llywodraeth Cymru.

Grŵp	1	2	3	4
Disgyblion presennol a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg	>91%	17%-73%	14%-19%	<13%
Cynnydd yn y pwyntiau canran targed sydd eu hangen	0	10-14+	8-12+	6-10+

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi'i osod yng ngrŵp 4 ac felly mae angen cynnydd o 6 phwynt canran o leiaf, a amlinellir yn y tabl isod. Mae targed 2032 yn seiliedig ar ein carfan bresennol:

Blwyddyn CYBLD	Carfan	Canran y garfan	Nifer y disgyblion ym Mlwyddyn 1
Gwaelodlin 2021	1988	5.1	101
Targed 2032	1988	11.1	221

Ym mis Medi 2020, roedd 112 o leoedd Cymraeg Blwyddyn 1 ar gael ledled Casnewydd.

Darperir 60 o'r lleoedd ychwanegol hyn yn y pen draw drwy Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli a agorodd ym mis Medi 2021 a bydd yn cynyddu nifer y lleoedd cynradd Cymraeg sydd ar gael ledled y Ddinas gan 54%. I ddechrau, bydd yr ysgol yn agor fel egin ysgol un dosbarth mynediad o leoliad dros dro yng Nghaerllion, cyn symud i safle presennol Ysgol Gynradd Pilgwenlli, pan fydd yn cynyddu i drefniant dau ddsbarth mynediad a bydd yn cynnwys dosbarth meithrin, canolfan drochi a chanolfan adnoddau dysgu bwrpasol i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes darpariaeth o'r fath ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn bodoli ar hyn o bryd ar draws ystâd gynradd Gymraeg Casnewydd.

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn ystyried opsiynau i gyflwyno cynnig i greu 30 o leoedd cynradd Cymraeg pellach fesul grŵp blwyddyn yn y pum mlynedd cyntaf o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Bwriedir i'r diffyg yn erbyn y targed isaf, a amcangyfrifir fel 30 o leoedd disgyblion Blwyddyn 1 arall, gael ei gynnwys mewn trafodaethau yn y dyfodol ynghylch ysgolion newydd a arweinir gan ddatblygwyr a Band C y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu. Nid yw'r manylion hyn wedi'u meintioli a byddant yn debygol o ddod i'r amlwg yn ail hanner cyfnod y CSCA hwn, o 2027 ymlaen, a byddant yn cael eu hadlewyrchu yn y Cynllun Datblygu Lleol a fydd ar waith yn cwmpasu'r cyfnod hwn.

O ganlyniad i'r bwriad hwn i ehangu'r ddarpariaeth gynradd Gymraeg erbyn 2032, nod y Cyngor yw cynnig o leiaf 232 o leoedd Blwyddyn 1 ar draws 6 lleoliad ysgol gynradd, gan fwy na dyblu'r ddarpariaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd. Ategir hyn gan fwy o gyfleoedd blynyddoedd cynnar a gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd yr uchelgais hwn hefyd yn ymestyn i'r sector uwchradd, gan y bydd y cynnydd sylweddol arfaethedig yn y ddarpariaeth gynradd yn anochel yn gofyn am gynnydd tebyg yn y ddarpariaeth uwchradd. Caiff hyn ei ystyried yn ail hanner y cynllun a'i gynnwys o fewn bwriad y Cyngor i adolygu'r holl ddarpariaeth uwchradd ar draws y Ddinas fel rhan o Band C y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu. Mae'r rhaglen hon yn debygol o ddechrau yn 2024.

Cynllunio Strategol ar Leoedd Ysgol a'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)

Mae grŵp Cynllunio Lleoedd Ysgol (Cly/POSP) Cyngor Dinas Casnewydd yn cyfarfod bob deufis ac yn darparu fforwm i swyddogion y Cyngor o'r adrannau Addysg a Chynllunio i rannu gwybodaeth ac ystyried y pwysau ar leoedd ysgolion yn y dyfodol, a'r ymatebion priodol i'r pwysau hyn. Ystyrir gwybodaeth am ddatblygiadau tai cymeradwy a gwybodaeth am safleoedd a ddyrennir o fewn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) ynghyd â rhagolygon poblogaeth disgyblion i ragweld effaith debygol newidiadau yn y boblogaeth ar lefel leol ac ar lefel dinas gyfan. Rhoddir ystyriaeth briodol i'r galw am addysg Gymraeg, a'i thwf arfaethedig, ac mae'n cael ei gynnwys ym mhob dadansoddiad data.

O'r herwydd, rhagwelir y bydd darpariaeth ysgolion a arweinir gan ddatblygwyr yn chwarae rhan allweddol yn natblygiad addysg Gymraeg dros oes y CSCA newydd hwn.

Mae'r CDLI presennol ar gyfer Casnewydd wedi bod ar waith ers 2015 ac er ei fod wedi llwyddo i gyflawni ei strategaeth mae'n bryd cynnal adolygiad ac i ddatblygu cynllun newydd. Bydd y CDLI presennol yn parhau i fod ar waith hyd nes y caiff y cynllun newydd ei fabwysiadu'n ffurfiol, y rhagwelir y bydd yn digwydd yng ngwanwyn 2025. Ceir dyraniadau safle penodol ar gyfer safleoedd ysgolion a nodir ym mholisi CFI3 y CDLI presennol, y mae pob safle wedi'i sicrhau neu wedi ei gyflawni. Bydd y ddarpariaeth addysg drwy rwymedigaethau cynllunio yn parhau fel y nodir yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol y Rhwymedigaethau Cynllunio a fabwysiadwyd.

Mae gwaith wedi dechrau'n ddiweddar ar baratoi'r CDLI newydd (2021-2036) gyda chytundeb ffurfiol gan Lywodraeth Cymru ar yr amserlen ar gyfer cyflawni (Gellir gweld y Cytundeb Cyflawni yn <https://www.newport.gov.uk/documents/Planning-Documents/Replacement-Local-Development-Plan-2021/LDP-Delivery-Agreement-25MAR21-Final-CYM.pdf>). Mae anghenion addysg y cynllun nesaf yn ystyriaeth allweddol a bydd lefel y ddarpariaeth yn cael ei heffeithio gan y lefel twf a ddewisir, y dewis o ran strategaeth a dyraniadau safleoedd datblygu. Drwy ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol drwy gydol y broses o baratoi'r cynllun, bydd y cynllun newydd yn ystyried a fydd angen gwneud dyraniadau cyfleusterau addysg sy'n benodol i safle a pha bolisiau y gallai fod eu hangen i sicrhau darpariaeth addysg, er enghraifft, drwy rwymedigaethau cynllunio. Bydd y CDLI newydd yn ystyried y galw am ddefnydd tir addysgol ar gyfer pob oedran, mathau o gyfleusterau ac ar gyfer darpariaeth Gymraeg a darpariaeth Saesneg.

Strategaeth 5 Mlynedd Hyrwyddo'r Gymraeg

Un o ofynion Safonau'r Gymraeg ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru yw hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg gan gynyddu ei gwelededd yn y gymuned.

Rhaid i'r Cyngor lunio a gweithredu Strategaeth Hyrwyddo 5 Mlynedd sy'n amlinellu sut y bydd yn cefnogi Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei thargedau Gymraeg 2050, cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg perthnasol a chyflawni ei rhwymedigaethau statudol a tharged uchelgeisiol ar gyfer twf.

Nod Strategaeth 5 Mlynedd y Gymraeg yw amlinellu a nodi sut fydd yr awdurdod lleol yn gweithio i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y ddinas a chysoni ei amcan ar draws amrywiaeth o strategaethau a chynlluniau gan gynnwys y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Er mai cyfrifoldeb Cyngor Dinas Casnewydd yw'r strategaeth, a bydd yn parhau i fod yn gyfrifoldeb arni, bydd yn gweithio ar y cyd â rhanddeiliaid eraill a'r gymuned i wireddu gweledigaeth Gymraeg ar gyfer Casnewydd, drwy aelodau Fforwm y Gymraeg a'r Fforwm Cymraeg mewn Addysg.

Yn ddiweddar, mae cynnydd sylweddol wedi bod yn nhwf addysg Gymraeg yn y ddinas, gyda chynnydd parhaus yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n cael addysg Gymraeg.

Bydd y system addysg a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor yn chwarae rôl allweddol yn sicrhau twf yr iaith yn y dyfodol wrth i ni geisio cynyddu nifer y plant – a'r rhieni - sy'n cael y cyfle i ddysgu a siarad Cymraeg, a chael cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith y tu allan i gatiâu'r ysgol.

Disgwylir i'r Strategaeth Hyrwyddo bresennol ddod i ben ym mis Mawrth 2022, gyda'r amserlen ar gyfer y Strategaeth newydd yn cyd-fynd â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Felly, mae'n hanfodol bod y ddwy strategaeth yn cydweithio ac yn cyfeirio at nifer o'r un canlyniadau a thargedau. Y themâu arfaethedig ar gyfer y strategaeth 5 Mlynedd nesaf yw:

- Cymuned
 - Cynyddu gwelededd a defnydd ar y Gymraeg
 - Ehangu partneriaethau cymunedol
- Cyflogwyr a Sgiliau
 - Gweithio â phartneriaid i hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil.
 - Cynllunio'r gweithlu a defnydd mewnol
 - Polisi'r Cyngor a chynllunio'r gweithlu
- Addysg
 - Sicrhau bod cynlluniau a thargedau yn cydberthyn â'r CSCA
 - Cefnogi a hyrwyddo addysg Gymraeg yn y gymuned

Bydd y rhain yn alinio ac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni nifer o'r canlyniadau a geir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Mae dyhead a nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg; "Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg" yn nod hirdymor, wedi'i gymeradwyo a'i gefnogi gan y Strategaeth hon a chan weithio mewn partneriaeth. Ein rôl ni yw tynnu'r ymdrechion hyn ynghyd fel bod y canlyniadau gorau posibl gennym ar gyfer pobl Casnewydd

Dyhead hirdymor y Cyngor yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd, codi ymwybyddiaeth, cynyddu gwelededd, a hyrwyddo manteision economaidd y Gymraeg ar draws y cymunedau amrywiol yn y ddinas. Cynyddu cyfleoedd i'r rhai sydd â phob lefel o'r Gymraeg i ymarfer a siarad Cymraeg mewn amgylchedd diogel, cyfeillgar a chefnogol, ac i ymgysylltu â'r rhai nad oes ganddynt unrhyw ymwybyddiaeth o'r iaith.

Mae Casnewydd yn ddinas Gymreig, gyda hunaniaeth Gymreig ond gydag amrywiaeth eang o gymunedau amlddiwyllyannol ac amlieithog, ac mae'n bwysig cynyddu'r ymwybyddiaeth bod y Gymraeg yn un o drysorau Cymru. Mae'n rhywbeth sy'n ein diffinio fel pobl ac mae'n rhan annatod o'n bywydau bob dydd.

Deilliant I: Mwy o blant meithrin/plant tair oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

Beth yw'r sefyllfa nawr?

Lleoedd Meithrin a Gynhelir

Blwyddyn CYBLD	2017		2018		2019		2020		2021	
Carfan	1624		1595		1634		1628		1564	
Disgyblion Cymraeg/%	79	4.9%	78	4.9%	76	4.7%	96	5.9%	84	5.4%
Lleoedd ar gael	110		112		112		112		112	
Lleoedd a lanwyd	71.8%		69.6%		67.9%		85.7%		75.0%	

Nid yw'r tabl yn cynnwys disgyblion sy'n codi'n 3.

Mae Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli wedi agor ar ei safle egin gyda 48 o leoedd meithrin rhan amser ar gael ym mis Medi 2021 ac felly ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021/22 roedd 160 o leoedd Meithrin Cymraeg rhan amser ar gael ledled Casnewydd, a chafodd 94 ohonynt eu dyrannu. Mae'r nifer hwn wedi cynyddu i 99 gan CYBLD 2022 sy'n cynnwys disgyblion sy'n codi'n 3 oed yn nhymor y Gwanwyn.

Lleoedd Meithrin Nas Cynhelir a Darpariaethau Mudiad Meithrin

Mae gan Gasnewydd ddwy ddarpariaeth Mudiad Meithrin, sef Cylch Meithrin Bryn-glas a Chylch Meithrin Y Delyn sydd wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ar gyfer 19 a 38 o blant yn y drefn honno (Cyfanswm nifer y lleoedd AGC cofrestredig wedi ei seilio ar 1 plentyn yn cymryd lle llawn amser). Mae'r ddau hefyd wedi'u cofrestru i ofalu am blant dyflwydd oed a'r rhai sy'n gymwys i gael Cynnig Gofal Plant i Gymru, felly gall unrhyw un o'r lleoedd a lanwyd gynnwys y plant hynny.

Cylch Meithrin Y Delyn oedd cylch chwarae cyntaf Casnewydd nas cynhelir a llwyddodd i ddarparu addysg Feithrin y Cyfnod Sylfaen o fis Chwefror 2021. Bydd Cylch Meithrin Bryn-glas hefyd yn cael ei gofrestru fel darparwr nas cynhelir o fis Medi 2021. Mae'r contract am gyfnod o bedair blynedd, gyda'r opsiwn o ymestyn am flwyddyn ychwanegol. Fel yn achos y cynnig gofal plant, bydd unrhyw le nas cynhelir a lanwyd yn cael ei gynnwys yn erbyn y nifer uchaf y mae'r lleoliad wedi'i gofrestru ar ei gyfer.

		Tachwedd 2020	Mehefin 2021
Cylch Meithrin Bryn-glas	Derbyn cynnig o le	11	13
	Lleoedd Cofrestredig	19	19
	Lleoedd wedi'u llenwi	57.9%	68.4%
Cylch Meithrin Y Delyn	Derbyn cynnig o le	15	23*
	Lleoedd ar gael	38	38
	Lleoedd wedi'u llenwi	39.5%	60.5%

*5 yn cael lle nas cynhelir wedi ei ariannu

Ym mis Mehefin 2021, gwelwyd y gwrthodiadau canlynol am le codi'n 3 oed mewn Ysgol Gynradd Gymraeg a gynhelir – bydd y plant hyn wedi eu cyfarwyddo i geisio darpariaeth Gymraeg nas cynhelir yn y cyfamser cyn dechrau ar eu lle meithrin a gynhelir ym mis Medi.

Ceisiadau a wrthodwyd	
Ionawr Yn Codi'n 3 oed	Ebrill Yn Codi'n 3 oed
12	15

Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer y plant sy'n symud ymlaen o ddarpariaeth Feithrin i ysgol gynradd Gymraeg yng Nghasnewydd:

Medi	2019		2020	
Nifer sy'n mynychu Meithrin	52		49	
Symud ymlaen i Ysgolion Cymraeg	39	75.0%	29	59.2%

Priodolwyd y gyfradd bontio is i amrywiaeth o ffactorau:

- Lleoliad ysgolion cynradd Cymraeg o'i gymharu â grwpiau Meithrin
- Ansicrwydd o ran pandemig Covid-19
- Diffyg llefydd codi'n 3 oed mewn mewn ysgolion cynradd Cymraeg, (dylai dau leoliad Cymraeg newydd nas cynhelir fel yr amlinellir uchod gael effaith gadarnhaol ar hyn)

Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant

Mae'r darpariaethau Dechrau'n Deg a gofal plant canlynol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghasnewydd:

Dechrau'n Deg	2021	Tymor y Gwanwyn	Tymor yr Haf
Cylch Meithrin Dros Yr Enfys	Derbyn cynnig o le	14	13
	Lleoedd ar gael	24	24
	Lleoedd wedi'u llenwi	58.3%	54.2%
Cylch Meithrin Dewin Disglair	Derbyn cynnig o le	15	13
	Lleoedd ar gael	24	24
	Lleoedd wedi'u llenwi	62.5%	54.2%

Yn nhymor yr haf 2021 roedd 793 o blant. Felly roedd 3.3% o blant Dechrau'n Deg yn cyrchu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae'r tabl canlynol yn dangos y cyfrwng iaith y dewisodd y rhai sy'n gadael Dechrau'n Deg symud iddo:

	Tymor 3 19/20	Tymor 1 20/21	Tymor 2 20/21	Tymor 3 20/21
Cyfanswm y rhai sy'n gadael DD	117	234	160	128
Ymadawyr â lle meithrin	77	220	148	101
% yr holl ymadawyr	65.80%	94%	92.50%	78.90%
Ymadawyr i addysg Gymraeg	7	10	7	9
Derbyn cynnig o le	6%	4.30%	4.40%	7%
% yr ymadawyr â lle meithrin	9%	4.50%	4.70%	8.90%
Ymadawyr addysg Gymraeg DD	5	10	12	6
- I Addysg Gymraeg	1 (20%)	4 (25%)	5 (42%)	5 (50%)
- I Addysg Saesneg	4 (80%)	12 (75%)	7 (58%)	3 (50%)

Mae nifer y plant yng Nghasnewydd sy'n cael mynediad i leoedd cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog drwy'r cynnig gofal plant fel a ganlyn:

Cynnig Gofal Plant	Cyfrwng Cymraeg	Dwyieithog
Nifer sy'n Cyrchu	13	37

Lle rydym yn anelu bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut y bwriadwn gyrraedd yno?

Lleoedd Meithrin a Gynhelir

Ym mis Medi 2021, agorodd Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli. Bydd ysgol newydd a gynigir mewn perthynas â chynyddu lleoedd derbyn yn cynnwys dosbarth meithrin i'w sefydlu o fewn 5 mlynedd cyntaf y cynllun.

Nifer Derbyn Cyhoeddiedig Meithrin	2022	2023	2024	2025	2026
YGC	52	52	52	52	52
YGBT	30	30	30	30	30
YGIH	30	30	30	30	30
YGNG	48	48	48	48	48
Ysgol Newydd	-	-	-	-	30
Cyfanswm	160	160	160	160	190

Lleoedd Meithrin nas cynhelir

Bydd trafodaethau'n dechrau ar draws timau'r Blynnyddoedd Cynnar a Dechrau'n Deg ar sut i gynyddu'r ddarpariaeth ar draws ardaloedd sydd wedi'u targedu. Nodwyd bod diffyg cynnydd cyfrwng Cymraeg mewn 3 lle ar draws lleoliadau yn Nwyrain y ddinas. Bydd timau'r Blynnyddoedd Cynnar a Dechrau'n Deg yn dechrau edrych ar sut y gallwn ehangu'r ddarpariaeth yn yr ardal yma drwy ddefnyddio canolfannau cymunedol.

Darpariaethau Mudiad Meithrin

Mae gan raglen 'Sefydlu a Symud' Mudiad Meithrin y gallu i sefydlu 40 o Gylchoedd Meithrin newydd gyda Chylch Ti a Fi erbyn 2021 mewn ardaloedd penodol o Gymru lle nad oes Cylch Meithrin ar hyn o bryd. Fel rhan o hyn, sefydlodd Mudiad Meithrin grŵp meithrin newydd yng Nghaerllion o fis Medi 2021. Yn y cyfnod diweddar mae Caerllion yn ardal sydd wedi gweld galw cyfyngedig am addysg Gymraeg; fodd bynnag, law yn llaw â sefydlu'r egin ysgol, rhagwelir y bydd y ddarpariaeth hon yn cael derbyniad da ac y bydd trefniadau gwaddol yn parhau unwaith y bydd yr ysgol newydd yn symud i'w lleoliad parhaol.

Cyfradd bontio o ddarpariaeth Mudiad Meithrin i Feithrinfa a Gynhelir	
Presennol	59%
Cyfartaledd Cenedlaethol	89.9%
Targed 5 mlynedd	75%

Mae Cymraeg i blant yn brosiect Mudiad Meithrin sy'n cefnogi darpar rienni a rhieni newydd wrth ddewis gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys:

- Amser rhigwm Cymraeg ac arwyddion
- Tylino babanod a ioga
- Paned a Sgwrs Gymraeg (grŵp ar-lein)
- Sesiynau fi a fy mabi yn esbonio'n fanwl y daith ddwyieithog (grŵp ar-lein)

Mae'r grwpiau'n cael eu hysbysebu fel rhai sy'n agored i bawb, ac nid oes angen i'r rhai sy'n mynychu allu siarad Cymraeg. Cyflwynir rhigymau ac ymadroddion Cymraeg syml yn wythnosol er mwyn helpu rhieni i gaffael gwybodaeth sylfaenol yn ogystal â'u helpu i gynyddu eu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg gartref.

Caiff y grwpiau eu hysbysebu'n eang a'u rhannu â thimau Ymwelwyr lechyd, gyda hyfforddiant yn cael ei ddarparu i amlinellu manteision dwyieithrwydd cynnar i'w helpu i gefnogi a chyfeirio rhieni at grwpiau lleol.

Noddir cofnodion mamolaeth gan Cymraeg i Blant ac mae'r holl fyfyrwyr Bydwreigiaeth ac Ymwelwyr lechyd ledled Cymru yn derbyn cyflwyniad ar fanteision dwyieithrwydd cynnar a rôl Cymraeg i Blant wrth hyrwyddo negeseuon allweddol gyda rhieni.

Nod y grwpiau yw rhoi'r wybodaeth leol, y wybodaeth, y cyngor a'r gefnogaeth i rienni ar;

- Y modd y gall siarad neu gyflwyno'r Gymraeg roi mwy o gyfleoedd i blant
- Ffyrdd o ddefnyddio arwyddo, tylino babanod ac ioga i gyfathrebu â babanod
- Cael mynediad at lyfrau, e-lyfrau ac apiau Cymraeg a dwyieithog
- Cael mynediad at gyrsiau Dysgu Cymraeg Lleol
- Ti a Fi Lleol, Cylch Meithrin ac ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Mae Mudiad Meithrin yn cyflogi Swyddog Ti a Fi cylchynol sy'n gweithio ledled Casnewydd a Torfaen ac yn cefnogi lleoliadau Ti a Fi sydd ar gael i rienni yng Nghasnewydd (Ti a Fi rhithiol yn y de-ddwyrain a Ti a Fi am Dro). Mae Mudiad Meithrin hefyd yn cefnogi Clwb Cwtsh, sef rhaglen flasau wyth wythnos sy'n canolbwyntio ar siarad Cymraeg gyda phlant ifanc sydd wedi'i hanelu at ddarpar rienni, rhieni/gofalwyr ac aelodau estynedig o'r teulu, a Chlwb Cylch, gweithgaredd Cymraeg rhithwir yn y cartref drwy ddarparu sesiynau agored i blant oed meithrin a'u rhieni drwy lwyfannau digidol. Rhoddir pwyslais arbennig ar blant o deuluoedd lle nad yw'r Gymraeg yn cael ei siarad gartref, a Gŵyl Dewin a Doti, sy'n ŵyl feithrin flynyddol sy'n teithio o amgylch Cymru.

Dechrau'n Deg a Gofal Plant

Mae darpariaethau Dechrau'n Deg newydd eisoes wedi'u cynllunio ar gyfer Pilgwenlli, y Betws a Ringland. Disgwylir i brosiect Pilgwenlli agor ym mis Ebrill 2022 a bydd yn debygol o gynnig lle i hyd at 24 o blant rhwng 2 a 3 oed neu hyd at 30 o blant rhwng 3 a 12 oed. Disgwylir i brosiect y Betws agor ym mis Ebrill 2022 a bydd yn debygol o gynnig lle i hyd at 30 o blant rhwng 2 a 3 oed neu hyd at 37 o blant rhwng 3 a 12 oed. Disgwylir i brosiect Ringland agor ym mis Ebrill 2022 a bydd yn debygol o gynnig lle i hyd at 40 o blant rhwng 2 a 3 oed neu hyd at 48 o blant rhwng 3 a 12 oed. Bydd y darpariaethau hyn wedi'u cofrestru gydag AGC, a byddant yn ffurfio cysylltiadau agos ag Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli, Ysgol Gymraeg Ifor Hael ac Ysgol Gymraeg Casnewydd yn y drefn honno gyda'r nod o gynyddu trosglwyddiad disgyblion o leoliadau cyn-ysgol i ysgolion Cymraeg.

Mae cyllid wedi'i ddyfarnu ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 ar gyfer gwaith ehangu cam I darpariaeth y blynyddoedd cynnar drwy Dechrau'n Deg. Mae awgrym y gallai hyn gael ei ymestyn am ddwy flynedd arall. Bydd hyn yn bodloni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ehangu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn raddol i gynnwys pob plentyn 2 flwydd oed, gyda phwyslais arbennig ar gryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Cytunwyd yn lleol ar gynllun gweithredu sy'n amlinellu'r fethodoleg sy'n gysylltiedig â chynnwys ardaloedd Dechrau'n Deg newydd a disgwylir am gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn wedi tynnu sylw at dair ardal posibl ar gyfer darpariaeth newydd yn Shaftesbury, Gaer a Chaerllion. Mae cyfarfodydd yn cael eu trefnu gyda phartneriaid cyflawni posibl, gan gynnwys sefydliadau ymbarél iechyd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau na ddylid ystyried bylchau yn y ddarpariaeth bresennol yn ffactor sylfaenol wrth bennu ardaloedd lle darperir gofal plant ychwanegol a ariennir, ond defnyddir y cam hwn i gasglu data gwybodaeth i lywio blynyddoedd i ddod.

Sut Gallwn Ni Ei Gyflawni?

Sefydlwyd is-grŵp penodol o'r Fforwm Addysg Gymraeg i ganolbwyntio ar hyrwyddo addysg Gymraeg ledled Casnewydd. Arweinir y grŵp gan Addysg ac mae'n cynnwys cynrychiolaeth o bwntiau cyswllt cychwynnol gyda rhieni - Penaethiaid, Derbyn i Ysgolion, y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a Dechrau'n Deg – ac o ganlyniad, mae yna elfen o undod ynghylch y negeseuon y gellir eu rhannu â rhieni a gofawyr ynghylch manteision addysg Gymraeg. Mae aelodau eraill y grŵp hwn yn cynnwys partneriaid ehangach sydd wedi'u cysylltu'n benodol â datblygu addysg cyfrwng Cymraeg a'r Gymraeg ledled Casnewydd, megis Mudiad Meithrin, Cymraeg I Blant, Menter Iaith, RhAG a Choleg Gwent. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob tymor ac yn ystyried ffyrdd arloesol y gall y Cyngor roi gwybodaeth i rieni / gofawyr yn briodol ac yn effeithiol ynghylch argaeledd a math y ddarpariaeth Gymraeg a gynigir ledled Casnewydd, gan gynnwys trefniadau ar gyfer hwyrddyfodiaid a throchi, a gwella cyfraddau pontio o leoliadau cyn-ysgol i ysgolion cynradd.

Fel rhan o hyn, mae'r wybodaeth y mae'r Cyngor yn ei rhannu â rhieni o ran Derbyniadau i Ysgolion (gan gynnwys y broses ymgeisio ar-lein), tudalennau perthnasol gwefan y Cyngor a pholisi Cymraeg mewn Addysg y Cyngor, maen nhw oll yn cyfeirio at y ffordd y caiff addysg Gymraeg ei chefnogi a'i datblygu ledled Casnewydd, a chaiff ei hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod y wybodaeth sy'n cael ei rhannu yn berthnasol, yn gywir ac wedi'i thargedu'n briodol. Mae tudalen we Dysgu Cymraeg y Cyngor hefyd yn rhoi arwyddbyst i wefannau ein grwpiau ac asiantaethau partner cyfrwng Cymraeg, ac i fideos sy'n dangos y ddarpariaeth sydd ar gael ar draws ein hysgolion Cymraeg. Mae llyfryn Manteision Dwyieithrwydd hefyd wedi'i ddatblygu a chaiff ei adolygu a'i ddiweddarau fel rhan o broses debyg, gyda hwn yn cael ei rannu gydag amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys y rhai yn y bwrdd iechyd lleol sydd â chyswllt cynnar â theuluoedd.

Yn nyddiau'r cynllun hwn, bydd is-grŵp Hyrwyddo'r Fforwm yn defnyddio data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) i ddadansoddi a nodi unrhyw wahaniaethau rhwng carfanau

disgyblion pob ysgol unigol yn erbyn y rhai sy'n berthnasol i'r dalgylchoedd perthnasol yn gyffredinol. Bydd hyn yn helpu i nodi unrhyw feysydd o dangynrychiolaeth yn ein hysgolion Cymraeg a dylai helpu i dargedu gweithgareddau hyrwyddo i gau'r bylchau hyn.

Er mwyn ymgysylltu â'r cymunedau ledled Casnewydd a hyrwyddo cynwysoldeb addysg Gymraeg, penodir Swyddog Hybu'r Gymraeg ar gontract cyfnod penodol. Bydd cylch gwaith y rôl yn cynnwys gweithio ar draws nifer o themâu i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r CSCA a chynyddu proffil addysg Gymraeg, yn enwedig yn ein cymunedau amrywiol ac ethnig. Bydd disgwyliad hefyd y byddant yn cefnogi ac yn helpu i ddatblygu'r Fforwm a'i is-grwpiau i fod yn hunangynhaliol gyda'r holl randdeiliaid yn cymryd perchnogaeth dros gyflawni'r canlyniadau a'r amcanion i wneud y CSCA yn llwyddiant.

Disgwylir yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant nesaf yn 2022. Adroddir ar y canlyniadau drwy Ddatblygiad y Blynnyddoedd Cynnar a'r Bartneriaeth Gofal Plant ac yna i'r Fforwm, gyda'r holl bartneriaid yn cael eu holi i ystyried sut orau y gallant gefnogi mwy o ddarpariaeth Gymraeg ar draws y Blynnyddoedd Cynnar a sicrhau bod hyn yn cael ei gynrychioli'n eang yn yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant ac yn cyd-fynd â'r targedau yn y cynllun hwn. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithio gyda Mudiad Meithrin i nodi lleoliadau ar gyfer darpariaethau newydd, ond mae diffyg argaeledd adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor, ac felly mae'n debygol y bydd angen archwilio opsiynau drwy sectorau eraill. Gwnawn hyn drwy is-grŵp Hyrwyddo'r Fforwm a Datblygiad y Blynnyddoedd Cynnar a'r Bartneriaeth Gofal Plant.

Darperir cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer disgyblion oed cynradd sy'n byw 2 filltir neu fwy o'u dalgylch neu'r ysgol agosaf sydd ar gael iddynt, ac ar gyfer disgyblion oed uwchradd (hyd at ddiwedd Blwyddyn 11) sy'n byw 3 milltir neu fwy o'u dalgylch neu'r ysgol agosaf sydd ar gael iddynt. Mae'r un polisi hefyd yn berthnasol o ran cyrchu'r uned drochi cynradd ddynodedig i gefnogi hwyrdyffodiaid i allu cyrchu addysg Gymraeg. Mae dadansoddiad data diweddar wedi nodi bod cyfran o deuluoedd yn bwriadol ddewis anfon eu plant i ysgol Gymraeg nad yw'n ysgol ddalgylch. Fodd bynnag, yr hyn nad yw'n glir yw a yw teuluoedd yn ymwybodol o'r goblygiadau y gallai'r penderfyniad hwn ei gael o ran cymhwysedd a hygyrchedd cludiant o'r cartref i'r ysgol. Drwy is-grŵp Hyrwyddo'r Fforwm, cynhelir arolwg rhieni dros dymor yr Hydref 2021 i nodi'r rhesymau y tu ôl i'r dewisiadau hyn, ac os yw'n briodol, gall yr adborth hwn lywio newidiadau i bolisiau'r Cyngor yn y dyfodol sy'n llywodraethu Derbyniadau i Ysgolion a Chludiant o'r Cartref i'r Ysgol.

Rhagwelir hefyd y bydd cyflwyno'r gwasanaeth Fflecsi yn effeithio'n ffafriol ar drefniadau cludiant o'r cartref i'r ysgol. Mae hon yn bartneriaeth rhwng Trafnidiaeth Cymru, Cyngor Dinas Casnewydd a Bws Casnewydd a bydd yn ategu ac yn gwella'r gwasanaethau bws presennol a drefnwyd ar draws y ddinas. Bydd y bysiau fflecsi hyn yn rhoi mynediad i lawer yn fwy o bobl ledled Casnewydd at drefniadaeth gyhoeddus, gan weithredu o 6.00am tan 11.00pm (Dydd Llun i Ddydd Sadwrn) a fydd yn galluogi trigolion i wneud ystod llawer ehangach o deithiau o'r bore cynnar tan yn hwyr gyda'r nos. Nod y cynllun yw ei gwneud yn haws i breswylwyr gyrraedd y gwaith a'r ysgol. Mae prisiau'r tocynnau yr un fath â'r rhai ar wasanaethau Bws Casnewydd sydd wedi eu hamserlennu, ond y gwahaniaeth allweddol yw y gellir archebu teithiau drwy ap neu dros y ffôn.

Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?


Erbyn diwedd y cynllun 10 mlynedd hwn, ein nod yw sicrhau ein bod wedi cynyddu'r ddarpariaeth gynradd Gymraeg o'i ffurf bresennol i'r un a geir yn y tabl isod:

Nifer Derbyn Cyhoeddiedig Meithrin	2027	2028	2029	2030	2031
YGC	52	52	52	52	52
YGBT	30	30	30	30	30
YGIH	30	30	30	30	30
YGNG	48	48	48	48	48
Ysgol Newydd	30	30	30	30	30
Darpariaeth Anhysbys	-	-	-	-	30
Cyfanswm	190	190	190	190	220

Mae pob ysgol gynradd a gynhelir yn y gymuned yng Nghasnewydd yn gweithredu o dan fodel 3-1-1, ac felly bydd yr holl gapasiti newydd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer lleoedd meithrin a gynhelir.

Mae Casnewydd yn gweithredu o dan economi gymysg o ran darpariaeth feithrin, ac felly mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i ehangu argaeledd darpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg nas cynhelir, a chefnogir lleoliadau wrth gyflwyno tendrau ar yr adeg briodol.

Ein gweledigaeth yw bod o leiaf un Cylch Meithrin ar gael ym mhob un o'n clystyrau cyfrwng Saesneg presennol a hefyd bod aliniad clir â'n hysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg presennol ac arfaethedig. Nodwyd bylchau penodol yn ardaloedd Pilgwenlli, Ringland, Llyswyry a Bassaleg. Mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg bresennol ar draws y Ddinas (ym mis Mehefin 2022) wedi'i mapio drosodd:



Map yn dangos lleoliad presennol y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan nodi'r bylchau ar draws y ddinas

Fel Cyngor, rydym hefyd wedi ymrwmo i archwilio cyfleoedd i ymestyn darpariaeth Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg ar draws pob un o'r ardaloedd clwstwr hyn, fel bod darpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg yn gyfle lleol a hygyrch i bob plentyn ledled Casnewydd.

Cyfradd bontio o ddarpariaeth Mudiad Meithrin i Feithrinfa a Gynhelir	
Presennol	59%
Cyfartaledd Cenedlaethol	89.9%
Targed 10 mlynedd	89.9%

Yn ogystal â'r uchod, byddai angen cymorth ar y Cyngor i gynorthwyo busnesau i agor lleoliadau gofal plant preifat drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â darparu cymorth i leoliadau sefydledig ddatblygu eu darpariaeth Gymraeg.

Data Allweddol

Mae'r data isod yn defnyddio carfan feithrin a gynhelir CYBLD 2021 heb gynnwys disgyblion sy'n codi'n 3. Rhagwelir cynnydd canrannol uwch pan fydd Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli yn trosglwyddo i'w safle parhaol a bod cyflymder yr amcanestyniad yn cynyddu ychydig ar draws ail hanner y cynllun.

Niferoedd a % y plant 3 oed sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

2022 - 2023		2023 - 2024		2024 - 2025		2025 - 2026		2026 - 2027	
96	6.1%	104	6.6%	120	7.6%	128	8.1%	136	8.6%
2027 - 2028		2028 - 2029		2029 - 2030		2030 - 2031		2031 - 2032	
145	9.2%	154	9.8%	164	10.4%	175	11.1%	175	11.1%

Deilliant 2: Mwy o blant dosbarth derbyn/plant pump oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

Beth yw'r sefyllfa nawr?

Mae CSCA presennol y Cyngor (2017 - 2022) yn cynnwys ymrwymiad i ysgogi galw am addysg Gymraeg drwy ehangu darpariaeth gynradd ledled y ddinas er mwyn i'r gyfran o ddisgyblion saith oed (Blwyddyn 2) a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg gynyddu i 5% erbyn 2022/23. Mae'r tabl canlynol yn dangos niferoedd a chanran carfan blwyddyn 2 sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Blwyddyn CYBLD	2017		2018		2019		2020		2021	
Niferoedd Bl. 2 /%	92	4.7%	90	4.6%	107	5.5%	97	4.9%	107	5.4%

Mae'r CSCA 2022-2032 hwn yn targedu plant derbyn (plant 5 oed) yn hytrach na phlant Blwyddyn 2, felly mae'r tabl canlynol yn dangos niferoedd a chanran y garfan dderbyn sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Blwyddyn CYBLD	2017		2018		2019		2020		2021	
PAN	112		112		112		112		112	
Niferoedd derbyn/%	108	5.6%	96	4.9%	108	5.6%	104	5.2%	113*	5.7%
% Lleoedd a lenwyd	96.4		85.7		96.4		92.9		100.9%*	

*Crëwyd dosbarth swigen i gefnogi'r galw uwch na'r disgwyl o ran carfan Derbyn Cymraeg mis Medi 2021.

Bydd Canolfan Drochi ar gael yn Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli pan fydd yn symud i'w lleoliad parhaol ym mis Medi 2024. Yn y cyfamser, mae Uned Drochi cynradd dros dro yn gweithredu o Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon ar ran yr ysgolion cynradd o fewn y clwstwr Cymraeg. Mae'r ysgol yn derbyn cyllid penodol o £73,000 y flwyddyn ar gyfer y diben hwn. Mae cymorth i ddisgyblion oedran uwchradd ar gael yn uniongyrchol drwy Ysgol Gyfun Gwent Is Coed, ac mae'r ysgol yn derbyn cyllid ychwanegol o £30,000 i ddarparu'r gwasanaeth. Y Pennaeth a'r corff llywodraethu perthnasol sy'n gyfrifol am reoli'r darpariaethau hyn o fewn y gyllideb sydd ar gael.

Mae gwybodaeth yn ymwneud â chyfleusterau trochi ar gael drwy'r wybodaeth y mae'r Cyngor yn ei rhannu â rhieni drwy'r Polisi a'r Llyfryn Derbyn i Ysgolion, tudalennau perthnasol gwefan y Cyngor a pholisi Cymraeg mewn Addysg y Cyngor, y mae pob un ohonynt yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan is-grŵp Hyrwyddo'r Fforwm i sicrhau bod y wybodaeth sy'n cael ei rhannu yn berthnasol, yn gywir ac wedi'i thargeddu'n briodol.

Lle rydym yn anelu bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut y bwriadwn gyrraedd yno?

Ym mis Medi 2021, agorodd Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli gan ddarparu 30 o leoedd Derbyn ychwanegol. Ym mis Medi 2024, bydd Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli yn symud i'w lleoliad parhaol ym Mhilogwenlli a bydd yn gallu cynyddu'r capasiti i drefniant mynediad dau ddsbarth.

Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn ystyried opsiynau i gyflwyno cynnig i greu trefniant cyfrwng Cymraeg ychwanegol cyfwerth â mynediad I dosbarth yn ystod pum mlynedd gyntaf y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae grŵp Cynllunio Lleoedd Ysgol (CLLY) y Cyngor yn cyfarfod bob hanner tymor i ystyried y galw lleol a'r pwysau ar y lleoedd sydd ar gael, digonolrwydd y ddarpariaeth ac i ystyried cynigion i ddarparu ymateb priodol. Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eitem sefydlog ar yr agenda ac fe'i trafodir yn fanwl ym mhob cyfarfod. Mae'r dadansoddiad a gynhaliwyd ar gyfer y grŵp hwn ac ar gyfer Fforwm Cymraeg mewn Addysg Casnewydd wedi canolbwyntio ar ardaloedd daearyddol lle mae diffyg darpariaeth neu rwystr canfyddedig i fanteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r gwaith hwn wedi dangos lefel dda o ddarpariaeth yng Ngogledd a De-ddwyrain y ddinas. Bwriad sefydlu ac adleoli Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli i ardal Pilgwenlli yw mynd i'r afael â'r diffyg a nodwyd yn rhannau Canol a Gorllewinol Casnewydd. Mae ein dadansoddiad yn dangos mai'r camau nesaf fydd ystyried darpariaethau mwy lleol ar gyrion Gorllewinol a Dwyrain y ddinas. Bydd datblygu cynigion ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg ychwanegol yn ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael gan gynnwys ysgolion newydd a arweinir gan ddatblygwyr; cyllid grant cyfalaf sydd ar gael a chyfleoedd a gyflwynir drwy gamau'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd, darperir addysg yng Nghasnewydd drwy ysgolion pwrpasol cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Saesneg. Fodd bynnag, o fewn pum mlynedd cyntaf y cynllun hwn, rydym wedi ymrwmo i archwilio cyfleoedd amgen, nid yn unig fel ffordd o gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg, ond hefyd i gynyddu cyfleoedd i ehangu'r defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau Saesneg. Gallai hyn fod drwy fodel ysgol dwyieithog neu drwy newidiadau y gellid eu nodi drwy bolisi categoraidd i'w Llywodraeth Cymru.

Bydd unrhyw gynnig o'r fath, wrth gwrs, yn amodol ar gymeradwyaeth y cabinet a phrosesau ymgynghori statudol cyhoeddus llawn yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion, 2018.

Lleoedd cyfrwng Cymraeg ar gael:

Blwyddyn CYBLD	2022	2023	2024	2025	2026	2027
YGC	52	52	52	52	52	52
YGIH	30	30	30	30	30	30
YGBT	30	30	30	30	30	30
YGNG	30	30	60	60	60	60
Ysgol Newydd	-	-	-	-	-	30
Cyfanswm	142	142	172	172	172	202

Mae lleoliad parhaol Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli yng nghanol cymuned Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sefydledig yng Nghasnewydd, ac ardal lle mae gan blant sgiliau dwyieithog neu amlieithog eisoes. Bydd y lleoliad hwn yn cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion o gefndiroedd aml-ieithyddol wella'r sgiliau hyn drwy allu cyrchu addysg Gymraeg yn lleol.

Er mwyn cefnogi mwy o gyfleoedd i ddysgwyr o bob cefndir ieithyddol gael mynediad i addysg Gymraeg, mae uned drochi gynradd bwrpasol yn Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon. Bydd y ddarpariaeth hon yn cael ei throsglwyddo i Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli o fis Medi 2024 pan fydd yr ysgol yn symud i'w safle parhaol. Er y bydd hon yn uned 10 lle i ddechrau, bydd digon o le yn adeilad yr ysgol i gynyddu hyn –

o bosibl i symud at sefyllfa lle bydd gennym ddau ddsbarth, un ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ac un ar gyfer Cyfnod Allweddol 2. Bydd hyn yn mynd i'r afael â rhai o'r materion a nodwyd gennym gyda'r trefniadau presennol, lle mae anghenion trochi dysgwr Blwyddyn 1 yn wahanol iawn i anghenion trochi dysgwr Blwyddyn 5. Er ei bod ond megis dechrau ar hyn o bryd, ein nod yw gweld y ddarpariaeth sydd ar waith ar hyn o bryd yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed hefyd yn cael ei chynyddu i ysgogi'r galw am addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg ymhellach.

Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Caiff yr ymrwymiad hwn ei gynnwys mewn trafodaethau yn y dyfodol ynghylch ysgolion newydd a arweinir gan ddatblygwyr, grantiau cyfalaf a Band C y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu fel yr amlinellir uchod.

Bydd Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) y Cyngor yn cwmpasu'r cyfnod 2021-2036 ac mae'r Cyngor yn gweithio tuag at ei baratoi a'i fabwysiadu yn gynnar yn 2026. Fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y cynllun, bydd angen i'r Cyngor ystyried yr angen cyffredinol am safleoedd addysg (h.y. yr angen presennol gan yr ALI nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â chaniatâd cynllunio) ac yna unrhyw ofyniad am safleoedd addysg sy'n gysylltiedig â dyraniadau safleoedd CDLI. Byddai hyn, wrth gwrs, yn cynnwys nid yn unig yr angen ffisegol ond y ddarpariaeth iaith ar gyfer safleoedd addysg yn unol â'r dadansoddiad o'r cyflenwad a'r galw a'r ymrwymiad twf a nodir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Byddai hefyd angen trafod hyn a'i adlewyrchu yn y gofyniad Adran 106 (cyfrifo costau i ddatblygwyr tuag at addysg) fesul safle lle mae safleoedd yn cael eu cyflwyno ar gyfer cynllunio nad ydynt wedi'u dyrannu'n benodol o fewn y CDLI. Y nod trosfwaol yw cynyddu nifer y lleoedd Derbyn Cymraeg sydd ar gael ledled y Ddinas i o leiaf 232 erbyn diwedd y cynllun 10 mlynedd hwn ym mis Awst 2032.

PAN	2031
YGC	52
YGBT	30
YGIH	30
YGNG	60
Ysgol Newydd	30
Darpariaeth anhysbys	30
Cyfanswm	232

Erbyn diwedd y cynllun 10 mlynedd hwn, ein nod yw sefydlu unedau trochi llwyddiannus yn Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli, sy'n ysgogiad pellach i rieni fynd ati i chwilio am addysg Gymraeg i'w plant yn ddiweddarach yn eu teithiau drwy fywyd ysgol statudol. Y nod yw sicrhau bod trefniadau trochi penodol ar waith, a'u bod yn cael eu hysbysu a'u hysbysebu'n dda, i gefnogi plant sy'n dewis newid o un cyfrwng iaith i'r llall ar unrhyw adeg yn eu bywydau ysgol.

Data Allweddol

Mae'r data isod yn defnyddio data carfan derbyn CYBLD 2021. Rhagwelir cynnydd canrannol uwch pan fydd Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli yn trosglwyddo i'w safle parhaol a bod cyflymder yr amcanestyniad yn cynyddu ychydig ar draws ail hanner y cynllun.

Niferoedd a % y plant 5 oed sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

2022 - 2023		2023 - 2024		2024 - 2025		2025 - 2026		2026 - 2027	
121	6.1%	131	6.6%	151	7.6%	161	8.1%	171	8.6%
2027 - 28		2028 - 2029		2029 - 2030		2030 - 2031		2031 - 2032	
181	9.1%	191	9.6%	200	10.1%	210	10.6%	220	11.1%

Deilliant 3: Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cam yn eu haddysg statudol i'r llall.

Beth yw'r sefyllfa nawr?

Mae'r tabl canlynol yn dangos y gyfradd bontio o ddilyniant cam 3 i 4 gan ddefnyddio data carfan blwyddyn 6 ar draws ysgolion cynradd Cymraeg Casnewydd i Ysgol Gyfun Gwent Is Coed.

Medi	2019	2020	2021
Nifer y disgyblion sy'n pontio	97	78	87
Cyfradd drosglwyddo	99%	96.2%	96.6%

Mae'r cyfnod pontio rhwng ein hysgolion cynradd ac uwchradd eisoes yn uchel iawn felly, gyda pherthnasoedd agos wedi'u sefydlu a'u hymgorffori rhwng y cymunedau ysgol.

Fodd bynnag, mae'r ysgol bellach wedi sefydlu uned drochi fewnol ac wedi penodi Athro Cymorth Iaith penodedig at ddibenion trochi. Yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21, llwyddodd 2 ddisgybl i fanteisio ar y ddarpariaeth hon. Roedd grant trochi refeniw Llywodraeth Cymru yn 2021/22 yn galluogi'r ysgol i brynu adnoddau ychwanegol fel bod yr uned hon bellach yn gallu lletya 8 dysgwr ar unrhyw adeg.

Mae Covid-19 wedi cael effaith ar ysgolion cyfrwng Cymraeg a'r iaith Gymraeg. Er nad yw hyn o bosibl yn annisgwyl mewn ardal lle mai ychydig iawn o rieni sy'n siarad Cymraeg eu hunain, mae Penaethiaid cynradd wedi nodi gostyngiad sylweddol mewn safonau llafaredd - yn enwedig yn y Blynyddoedd Cynnar - a diffyg hyder gan ddisgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u cyfoedion. Mae cyfleoedd dysgu cyfunol yn parhau i gael eu datblygu i gefnogi rhaglenni dal i fyny a nodwyd bod angen cymorth ychwanegol ar rai disgyblion sydd wedi elwa ar drochi yn flaenorol.

Darperir trafndiaeth o'r cartref i'r ysgol ar gyfer disgyblion oed cynradd sy'n byw 2 filltir neu fwy o'u dalgylch neu'r ysgol agosaf sydd ar gael, ac ar gyfer disgyblion oed uwchradd (hyd at ddiwedd Blwyddyn 11) sy'n byw 3 milltir neu fwy o'u dalgylch neu'r ysgol agosaf sydd ar gael iddynt. Mae hyn yn cynnwys ysgolion Cymraeg. Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yw'r ysgol ddalgylch uwchradd Gymraeg ar gyfer Casnewydd gyfan. Fodd bynnag, yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru), os yw dysgwr yn byw'n agosach at ysgol uwchradd Gymraeg arall, byddant hefyd yn gymwys i gael cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim i'r ysgol amgen honno os bodlonir y cymhwyster pellter. Mae hyn yn cefnogi teuluoedd sy'n byw ar gyrion y Ddinas a allai fyw'n agosach at ysgol Gymraeg yng Nghaerffili, Caerdydd neu Dorfaen.

Lle rydym yn anelu bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut y bwriadwn gyrraedd yno?

Er bod y targed cyffredinol o fewn y cynllun hwn yn cyfeirio'n benodol at ychwanegedd yn y sector cynradd, bydd hyn yn cael effaith ganlyniadol ar y ddarpariaeth uwchradd sydd ar gael yn y ddinas. Ar hyn o bryd dim ond un ysgol uwchradd Gymraeg sydd - Ysgol Gyfun Gwent Is Coed - sydd â chyfanswm capasiti wedi'i gapio ar 900 o leoedd i ddisgyblion, gan gynnwys darpariaeth Ôl-16 â 150 lle. Bydd y cynnydd yn argaeledd lleoedd cyfrwng Cymraeg yn y sector cynradd yn effeithio ar nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg sydd eu hangen yn y sector uwchradd. Fodd bynnag, mae hyn yn annhebygol o gael effaith tan fis Medi 2028 ar y cynharaf. O ganlyniad, rhagwelir y bydd ehangu darpariaeth uwchradd Gymraeg yn flaenoriaeth allweddol o fewn Band C y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu y Cyngor, ac nid yw'r manylion wedi'u meintioli eto.

O fewn 5 mlynedd cyntaf y cynllun hwn, y targed yw i o leiaf 96% o ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd Cymraeg barhau i drosglwyddo'n gyson i ysgol uwchradd Gymraeg. Mae'r targed yn briodol oherwydd meintiau bach y carfannau a'r effaith y gallai un disgybl ei chael ar y ganran. I gefnogi hyn, mae gweithgareddau pontio clwstwr yn dechrau ym Mlwyddyn 5 fel bod rhieni a disgyblion yn gwbl ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed.

Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Erbyn 2032, bydd angen creu darpariaeth uwchradd Gymraeg ychwanegol yn y Ddinas er mwyn darparu ar gyfer y galw a ddaw o'r ysgol gynradd newydd a fydd yn agor ym mis Medi 2021 a'r capasiti ychwanegol a fydd hefyd yn cael ei greu wrth gyrraedd y targedau gofynnol o ran dysgwyr Blwyddyn 1 a amlinellir yn y cynllun hwn. Rhagwelir y bydd angen darpariaeth uwchradd ychwanegol o 600 o ddysgwyr oedran ysgol statudol o leiaf, ynghyd â chapasiti ôl-16 priodol. Mae'n debygol felly y bydd ehangu'r ddarpariaeth uwchradd Gymraeg yn flaenoriaeth allweddol o fewn Band C y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu y Cyngor, a fydd yn dechrau tua 2024. Nid yw'r manylion hyn wedi'u meintioli eto.

Er gwaethaf hyn, y targed yw cynnal o leiaf 96% o ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg i drosglwyddo'n gyson i ysgol uwchradd Gymraeg.

Ein nod yw sefydlu uned drochi lwyddiannus yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed, a bod bodolaeth y darpariaethau yn ysgogiad pellach i rieni fynd ati i chwilio am addysg Gymraeg i'w plant yn ddiweddarach ar eu teithiau drwy fywyd ysgol statudol. Gall hyn fod yn arbennig o berthnasol wrth drosglwyddo o'r cyfnod ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, gyda'r nod o sicrhau bod trefniadau trochi penodol ar waith, a'u bod yn cael eu hysbysu a'u hysbysebu'n dda, i gefnogi plant sy'n dewis newid o un cyfrwng iaith i'r llall ar y pwynt hwn yn eu bywydau ysgol.

Data Allweddol

Gan ddefnyddio targed o gynnal 96% fel cyfradd bontio a data CYBLD 2021 o ysgolion cynradd Cymraeg Casnewydd, nodwyd y targedau o ran rhif.

Niferoedd a % y dysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cam ar eu haddysg statudol i'r llall.

2022 - 2023		2023 - 2024		2024 - 2025		2025 - 2026		2026 - 2027	
82	96%	95	96%	88	96%	102	96%	97	96%
2027 - 2028		2028 - 2029		2029 - 2030		2030 - 2031		2031 - 2032	
109	96%	97	96%	116*	96%	126*	96%	145*	96%

*Ffigurau a gyfrifwyd o amcanestyniadau deilliant 2

Deilliant 4: Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau asesedig mewn Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Beth yw'r sefyllfa nawr?

Agorodd Ysgol Gyfun Gwent IS Coed ar batrwm model egin ysgol ym mis Medi 2016, a bydd y garfan gyntaf o ddisgyblion yn cwblhau eu cyrsiau TGAU yn haf 2021. Yn CYBLD 2021, roedd 72 o ddysgwyr ym Mlwyddyn 10 a 72 o ddysgwyr ym Mlwyddyn 11 yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed.

Ym mis Mehefin 2022, roedd 32 o fyfyrwyr ym Mlwyddyn 12 yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed, ac mae'r ysgol yn cynnig y 14 cwrs canlynol:

Celf a Dylunio	Cyfrifiadureg
Llenyddiaeth Saesneg	Cemeg
Bioleg	Daearyddiaeth
Ffiseg	Astudiaethau Crefyddol
Addysg Gorfforol	Mathemateg
Gwyddorau Meddygol	Twristiaeth
Perfformiad Cerddoriaeth	Iechyd a Gofal
	Cymdeithasol

Yn ogystal, mae myfyrwyr hefyd yn gallu cael mynediad rhithwir i gyrsiau Cymraeg (iaith gyntaf) a Sbaeneg a ddarperir gan Ysgol Gyfun Gwynllyw yn Nhorfaen. Ar hyn o bryd mae 3 myfyrwr yn astudio Cymraeg Safon Uwch fel hyn, gan fod anawsterau staffio yn atal yr ysgol rhag rhedeg y cwrs hwn ei hun. Yn ogystal â chynnig academaidd traddodiadol, mae Mudiad Meithrin yn cefnogi'r rhaglen Cam wrth Gam, sy'n llwybr i ddod yn Gynorthwywyr Addysgu neu sy'n gallu gweithredu fel cymhwyster Lefel 3 i symud ymlaen i astudio addysg yn y brifysgol.

Mae'r ysgol yn rhagweld y bydd 28 o fyfyrwyr yn trosglwyddo o Flwyddyn 11 i Flwyddyn 12 ym mis Medi 2022, gyda 18 o gyrsiau ar gael, er y bydd rhai o'r rhain mewn cydweithrediad ag Ysgol Gyfun Gwynllyw ac Ysgol Gymraeg Cwm Rhymni (yng Nghaerffili).

Caiff TGAU Cymraeg (2^{il} iaith) ei gynnig ym mhob un o ysgolion uwchradd Saesneg Casnewydd ar draws y Ddinas, gyda 1552 o ddisgyblion yn cael eu hasesu yn y pwnc hwn yn 2021.

Fodd bynnag, mae gostyngiad sylweddol yn yr Ôl-16, gyda Chymraeg UG a Safon Uwch (2il iaith) ond yn cael ei gynnig mewn 2 ysgol uwchradd Saesneg, er eu bod ar gael i ddysgwyr ledled y Ddinas drwy'r model cydweithredu Ôl-16 sydd ar waith. Mae nifer y dysgwyr presennol yn cofnodi bod 30 o ddysgwyr Blwyddyn 12 ac 17 o ddysgwyr Blwyddyn 13 yn dilyn y cwrs astudio hwn.

Mae Coleg Gwent yn cofnodi iaith dysgu ac asesu pob dysgwr gan ddefnyddio'r categorïau canlynol yn set ddata LA26 maes Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (CDGOC/LLWR):

- B3: Ychydig iawn o ddysgu cyfrwng Cymraeg
- B2: Mae cryn dipyn o ddysgu cyfrwng Cymraeg
- B1: Dysgu wedi'i gwblhau mewn cyd-destun dwyieithog
- C1: Dysgu wedi'i gwblhau mewn cyd-destun cyfrwng Cymraeg

Mae'r coleg wedi cael rhywfaint o lwyddiant yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ran cynyddu nifer y dysgwyr sy'n perthyn i gategoriâu B1 a B2 yn benodol. Fodd bynnag, mae'r niferoedd yn dal yn

gymharol isel ac mae'r coleg yn uchelgeisiol yn ei weledigaeth i gynyddu'r niferoedd hyn dros y 10 mlynedd nesaf. Mae'r data diweddaraf (nifer y dysgwyr yn 2020-2021) fel a ganlyn:

B3	B2	B1	C
276	93	144	0

Mae'r tabl isod yn crynhoi canran carfan 2020-2021 sy'n cael ei hasesu ar gyfer cymhwyster sy'n defnyddio'r Gymraeg:

TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf	TGAU Cymraeg Ail Iaith	UG/Safon Uwch Cymraeg Ail Iaith	Darpariaeth Coleg Gwent
Disgyblion Blwyddyn 11 yn YGGIC	Disgyblion Blwyddyn 11 ar draws yr Ysgolion Uwchradd Saesneg	Disgyblion Blwyddyn 12+13 ar draws Ysgolion Uwchradd Saesneg	
100%	92.8%	2.8%	5.5%

Mae gan Gasnewydd gryfder yn ei chymwysterau yn y Gymraeg fel iaith gyntaf gan fod 100% o ddisgyblion sy'n astudio'r cymhwyster yn cael eu cofrestru ar gyfer yr arholiad.

Ffrwd sydd wedi'i chynnwys yn y Strategaeth Hyrwyddo 5 mlynedd yw gweithio gyda chyflogwyr, partneriaid a rhanddeiliaid i hyrwyddo pwysigrwydd a manteision economaidd siarad neu ddysgu Cymraeg, a sut y gall hyn helpu a chefnogi disgyblion, myfyrwyr ac unigolion i gael gwaith. Mae hyn yn hyrwyddo pwysigrwydd cymhwyster yn y Gymraeg a'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Lle rydym yn anelu at fod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut y bwriadwn gyrraedd yno?

Ar hyn o bryd mae 97 o ddisgyblion yng ngharfan Blwyddyn 5 yn yr ysgolion hynny sy'n rhan o glwstwr Ysgol Gyfun Gwent Is Coed. Bydd y rhain yn ddysgwyr Blwyddyn 11 ym mlwyddyn academiaidd 2026/27, a fydd felly'n sefyll eu harholiadau TGAU yn ystod haf 2027. Gan gymryd cyfradd bontio o 96% o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, ein targed ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yw 93, cynnydd o 16 o'i gymharu â'r 77 yn 2021.

Cyfartaledd cyfraddau pontio Ôl-16 yw 57% ar gyfer blwyddyn 12 a 76% ar gyfer blwyddyn 13 ar draws ysgolion uwchradd Casnewydd. Gan dybio hyn fel arwydd o gyfraddau pontio yn y sector Gymraeg, ein nod yw y bydd o leiaf 104 o ddysgwyr Ôl-16 (57 Blwyddyn 12, 47 Blwyddyn 13) yn cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2027. Er bod cydweithio Ôl-16 eisoes yn bodoli ledled Casnewydd, mae hyn ond yn berthnasol i ysgolion cyfrwng Saesneg. Bydd model rhanbarthol tebyg yn opsiwn ar gyfer darpariaeth Gymraeg, er y bydd y pellter rhwng yr ysgolion yng Nghasnewydd, Caerffili a Thorfaen yn gwneud hyn yn anos. Felly, bydd angen ystyried dull gweithredu gwahanol er mwyn sicrhau y gellir datblygu cynnig cwricwlwm mor eang â phosibl a'i ddarparu i ddysgwyr. Bydd hyn yn cynnwys dysgu cyfunol ac o bell ar draws ysgolion yn y rhanbarth, a gweithio gydag E-sgol i ystyried mwy o gyfleoedd ar draws ardal ddaearyddol ehangach.

Mae'r arwyddion presennol ar gyfer blwyddyn academiaidd 2022-2023 yn awgrymu bod 2 ddisgybl yn bwriadu astudio Cymraeg iaith Gyntaf ym Mlwyddyn 12 a 18 yn bwriadu astudio Cymraeg Ail iaith. Bydd hyn eisoes yn welliant o gymharu â'r flwyddyn gyfredol.

Bydd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn gweithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, i gefnogi mentrau sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg fel pwnc Safon Uwch yn y

sectorau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Bydd Partneriaid Gwella Ysgolion yn trafod darpariaeth ôl-16 gydag ysgolion. Cymorth pwnc-benodol pwrpasol i ganolfannau sy'n darparu cyfleoedd rhwydweithio a dysgu proffesiynol parhaus yng Nghymru. Cydweithio wedi'i hwyluso o fewn ac ar draws rhanbarthau. Law yn llaw â hyn, byddwn yn ymgysylltu â phartneriaid ehangach gan gynnwys Gyrfa Cymru i chwilio am ffyrdd y gallwn hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael yn y dyfodol i ddysgwyr sydd â chymhwyster ffurfiol yn y Gymraeg a chodi ymwybyddiaeth o fanteision economaidd dysgu a gallu defnyddio'r Gymraeg.

Yn dilyn arweiniad y Coleg Cymraeg Cenedaethol, bydd y coleg yn parhau i ganolbwyntio ar ymgorffori unedau dwyieithog llawn yn y prif gymwysterau mewn meysydd cwricwlwm dwyieithog â blaenoriaeth. Yn y 5 mlynedd cyntaf, bydd y ffocws ar ofal plant, iechyd a gofal cymdeithasol a gwasanaethau cyhoeddus. Bydd pob dysgwr Gofal Plant Lefel 3 sydd wedi cofrestru ar Gampws Casnewydd yn cwblhau un uned lawn o'u prif gymhwyster yn ddwyieithog, gan ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddangos tystiolaeth o sut yr oeddent yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r Gymraeg mewn lleoliad blynyddoedd cynnar.

Bydd y Coleg yn cyflogi staff newydd (neu uwchsgilio staff presennol) i ddarparu unedau dwyieithog yn y tri maes cwricwlwm yma.

Mae'r targedau ar gyfer cyflawni'n ddwyieithog yn ystod y 5 mlynedd nesaf fel a ganlyn:

B3	B2	B1	C
2000*	400	600	**

*Bydd y coleg yn datblygu pecyn digidol a fydd yn galluogi'r rhan fwyaf o ddysgwyr Galwedigaethol Amser Llawn i gyflawni o leiaf B3

**Bydd y coleg yn canolbwyntio ar ymgorffori unedau Cymraeg a dwyieithog i brif raglenni yn hytrach na darparu cyrsiau cyfrwng Cymraeg llawn

Lle rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Ar hyn o bryd mae 128 o ddisgyblion yn y garfan Dderbyn yn yr ysgolion hynny sy'n rhan o glwstwr Ysgol Gyfun Gwent Is Coed. Bydd y rhain yn ddysgwyr Blwyddyn 11 ym mlwyddyn academiaidd 2031/32, a fydd felly'n sefyll eu harholiadau TGAU yn ystod haf 2032. Gan gymryd cyfradd bontio o 96% o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, ein targed ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yw 123, cynnydd o 46 o'i gymharu â'r 77 ar y gofrestr yn 2021.

Dros y 5 mlynedd nesaf, bydd y Cyngor yn gallu rhagweld a modelu cyfraddau pontio Ôl-16 cyfrwng Cymraeg, ac felly bydd yn gallu amcangyfrif yn well nifer y dysgwyr Ôl-16 a ddisgwylir erbyn diwedd y cynllun hwn. Bydd y cwricwlwm Ôl-16 yn parhau i gael ei ddatblygu felly mewn cydweithrediad ag ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill ar draws rhanbarth de-ddwyrain Cymru a, thrwy E-sgol, gydag ysgolion Cymraeg eraill ledled Cymru, a chyda Choleg Gwent i sicrhau llwybr priodol ac eang sy'n addas ar gyfer anghenion pob dysgwr.

Erbyn diwedd y cynllun hwn, ac er mwyn cefnogi twf y Gymraeg fel ail iaith ar draws Casnewydd, mae'r Cyngor wedi ymrwmo i sicrhau bod nifer y disgyblion a asesir mewn TGAU Cymraeg (2^{il} iaith) yn cael ei gynnal o leiaf ar 96%, a bod Cymraeg (2^{il} iaith) UG a Safon Uwch ar gael i'w hastudio ar draws hanner ei holl ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg. Mae'r gwaith hyrwyddo yn ymwneud â manteision o ran cymwysterau Cymraeg ffurfiol (2^{il} iaith) yn parhau i gael eu datblygu a'u hymgorffori drwy gydweithio â phartneriaid ehangach.

Bydd Coleg Gwent yn parhau i ddatblygu modiwlau dwyieithog ar draws yr holl feysydd blaenoriaeth sy'n weddill (cyfanswm o 7 maes cwricwlwm). Bydd hyn yn cynnwys datblygu adnoddau yn ogystal â recriwtio staff newydd.

Y targedau ar gyfer cyflawni'n ddwyieithog ymhen 10 mlynedd:

B3	B2	B1	C
3000	500	1000	**

***Bydd y coleg yn canolbwyntio ar ymgorffori unedau Cymraeg a dwyieithog i mewn i brif raglenni yn hytrach na darparu cyrsiau cyfrwng Cymraeg llawn, oni bai bod cyfle newydd yn codi. Caiff hyn ei werthuso'n flynyddol*

Data Allweddol

1. Cymwysterau asesedig mewn pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg (Blynyddoedd 10-13 YGGIC) (drwy dynnu carfanau clwstwr YGGIC cyfredol drwodd i'w grŵp blwyddyn arholi.
Â Chymryd:
 - Pontio o 96% o gam dilyniant 3 i gam 4
 - 54.9% fel cyfradd bontio blwyddyn 11 i 12
 - 81.5% fel cyfradd bontio blwyddyn 12 i 13)
2. Cymraeg fel pwnc (drwy dynnu pob carfan drwodd i'w blwyddyn TGAU, a chymryd yn ganiataol bod 96% o ddisgyblion Blwyddyn 11 mewn ysgolion Saesneg a 100% o ddisgyblion Blwyddyn 11 mewn ysgolion Cymraeg yn cael eu cofrestru ar gyfer TGAU mewn Cymraeg fel pwnc o fewn y pum mlynedd cyntaf, a chynnal y lefelau hyn hyd at ddiwedd y cynllun).
3. Nifer y Dysgwyr sy'n astudio yn y categori B1 (Dysgu a gwblhawyd mewn cyd-destun dwyieithog) yn cyrraedd 600 o ddysgwyr erbyn diwedd y pum mlynedd cyntaf a 1000 erbyn diwedd y cynllun.

Niferoedd a % y dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau asesedig mewn pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg – Blynyddoedd 10-13 yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed

2022 - 2023		2023 - 2024		2024 - 2025		2025 - 2026		2026 - 2027	
271	100%	297	100%	312	100%	307	100%	317	100%
2027 - 2028		2028 - 2029		2029 - 2030		2030 - 2031		2031 - 2032	
319	100%	326	100%	339	100%	354	100%	342	100%

Niferoedd a % y dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau asesedig mewn Cymraeg (fel pwnc) ar gyfer TGAU

2022 - 2023		2023 - 2024		2024 - 2025		2025 - 2026		2026 - 2027	
1753	94.3%	1921	94.8%	1879	95.3%	1940	95.7%	1952	96.2%
2027 - 2028		2028 - 2029		2029 - 2030		2030 - 2031		2031 - 2032	
1948	96.2%	1975	96.2%	1923	96.2%	1939	96.2%	1941	96.3%

Niferoedd a % y dysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau asesedig mewn Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg - Categori BI Coleg Gwent

2022 - 2023	2023 - 2024	2024 - 2025	2025 - 2026	2026 - 2027
200	300	400	500	600
2027 - 2028	2028 - 2029	2029 - 2030	2030 - 2031	2031 - 2032
700	800	900	950	1000

Deilliant 5: Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol.

Beth yw'r sefyllfa nawr?

Mae'r consortiwm rhanbarthol wedi gweithio'n helaeth gyda chydweithwyr traws-gonsortia a rhanddeiliaid addysg (gan gynnwys Estyn a NAEL) i ddatblygu cronfa o adnoddau dysgu cyfunol ac o bell sy'n cefnogi datblygiad parhaus sgiliau llythrennedd Cymraeg ym mhob cyfnod dysgu. Mae ystyried anghenion disgyblion sy'n dod o gartrefi di-Gymraeg ac sy'n mynychu addysg Gymraeg wedi bod flaenaf o ran gwaith datblygu. Mae cydweithio cenedlaethol yn parhau i gefnogi'r Gymraeg mewn ysgolion Cymraeg a rhai Saesneg gydag adnoddau'n cael eu datblygu'n barhaus. Mae Ysgol Gyfun Gwent Is Coed wedi cyfrannu'n sylweddol at y gwaith datblygu ar gyfer Cyfnodau Allweddol 3 a 4 ochr yn ochr â chyfoedion o bob rhan o Gymru. Mae'r cydweithio hwn ar draws consortia a chynnwys ysgolion wedi gweithio'n dda i nodi anghenion ac i dargedu datblygu adnoddau'n briodol. Mae'r holl adnoddau ar gael drwy Hwb.

Mae cefnogaeth i'r Siarter Iaith (mewn ysgolion Cymraeg) a Chymraeg Campus (mewn ysgolion Saesneg) yn mynd rhagddo'n barhaus. Mae gan y Siarter Iaith rôl ganolog i'w chwarae o ran cynnal sgiliau iaith, yn enwedig i ddysgwyr o gartrefi di-Gymraeg. Mae'r ymagwedd hyd yma wedi bod ar rannu arfer gorau o ran dulliau adfer iaith, ac mae cyfres o adnoddau wedi'u datblygu i gefnogi rhieni. Mae Cymraeg bob Dydd yr Urdd yn cefnogi rhaglen y Siarter Iaith mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg.

Siarter Iaith		Campws Cymraeg	
Cynradd: Arian	Uwchradd: Cam 1 o 5	Gweithio tuag at Efydd	Efydd wedi ei Gyflawni ac yn gweithio tuag at Arian
100%	100%	22%	78%

Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA/EAS) yn cefnogi ysgolion i archwilio dilyniant o Gymraeg Campus a hyrwyddo gwerthoedd y Siarter Iaith gydag ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg. Mae gwaith datblygu cynnar penodol wedi'i wneud yn Ysgol Gyfun Caerllion, St Julian's ac Ysgol John Frost.

Cefnogir cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau eraill yn sylweddol gan sefydliadau partner drwy amrywiaeth o weithgareddau.

Gwasanaeth Ieuentid

Mae'r Gwasanaeth Ieuentid yn comisiynu gweithiwr ieuentid Cymraeg llawn amser mewn partneriaeth â'r Urdd yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed. Y ffocws cychwynnol ar gyfer y rôl hon yw cefnogi pobl ifanc ledled y Ddinas sydd angen cymorth Cymraeg I i I, gydag atgyfeiriadau gan brosiectau Teuluoedd yn Gyntaf, I2A a I2W.

Cyn pandemig Covid-19, roedd y Gwasanaeth Ieuentid yn gweithredu grŵp ieuentid Cymraeg a oedd yn cael ei gynnal o Gampws Prifysgol De Cymru yng Nghanol y Ddinas. Mae cynllunio ar y gweill i ailddechrau'r ddarpariaeth hon yn nhymor yr Hydref 2021.

Chwarae

Wrth i ni adfer wedi pandemig Covid-19, mae lleoliadau'n cael eu hystyried i gyflwyno sesiynau chwarae Cymraeg o fis Ionawr 2022.

Menter Iaith Casnewydd

Mae Menter Iaith Casnewydd yn cefnogi digwyddiadau i ddysgwyr a digwyddiadau i deuluoedd. Mae'r tabl canlynol yn amlinellu'r ddarpariaeth a gynigiwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf:

Blwyddyn	2018 - 2019	Nifer y Digwyddiadau	Nifer y mynychwyr
2018-2019	Digwyddiadau ar gyfer plant a phobl ifanc	80	822
	Digwyddiadau i deuluoedd	22	125 oedolion 145 plant
2019-2020	Digwyddiadau ar gyfer plant a phobl ifanc	112	1122
	Digwyddiadau i deuluoedd	17	121 oedolion 114 plant

Yn ogystal, mae Menter Iaith Casnewydd hefyd yn gweithredu Clybiau ar ôl Ysgol yn Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon ac Ysgol Gymraeg Casnewydd.

Urdd Gobaith Cymru

Mae Urdd Gobaith Cymru yn fudiad plant a phobl ifanc cenedlaethol gwirfoddol sy'n cynnig cyfleoedd amrywiol i ddefnyddio'r Gymraeg ac ennill profiadau y tu allan i'r ystafell ddosbarth ac yn eu cymunedau. Mae'r cyfleoedd hyn ar gael ar draws pob Awdurdod Lleol yng Nghymru ac maent yn amrywiaeth o weithgareddau lleol, sirol, rhanbarthol a Chenedlaethol.

Mae'r sefydliad yn gweithio yn y ffyrdd canlynol:

Yn y Gymuned

- Swyddogion yn darparu cyfleoedd celfyddydau cymunedol gydol y flwyddyn
- Adrannau, aelwydydd a chlybiau cymunedol i blant a phobl ifanc wneud y mwyaf o'r Gymraeg a'i defnyddio
- Darpariaeth ddigidol ar gyfer pob oedran

Chwaraeon

- Clybiau cymunedol
- Cystadlaethau chwaraeon sirol, rhanbarthol a chenedlaethol
- Gwyliau Chwaraeon Rhanbarthol a Chenedlaethol
- Gweithgareddau Digidol
- Darparu addysg llythrennedd corfforol i ysgolion

Gwersylloedd yr Urdd

- Llangrannog, Glan-Ilyn, Caerdydd a Phentre Ifan
- Profiadau preswyl sy'n cynnig profiadau dysgu, atgofion hwyliog a chadarnhaol o ran y defnydd o'r Gymraeg

Eisteddfod a'r Celfyddydau

- Mae'r Eisteddfod Gylch a Sir yn cynnig cyfleoedd i ysgolion a disgyblion brofi'r celfyddydau, datblygu hunanhyder a dysgu mwy am ddiwylliant a llenyddiaeth Cymru.
- Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a bod yn rhan o wyl Genedlaethol
- Darpariaeth celfyddydau digidol, cerddoriaeth, theatr, celf a chefn llwyfan

Prentisiaethau cyfrwng Cymraeg

- Dilyniant addysgol a chyflogaeth i bobl ifanc sydd am ennill cymwysterau a phrofiad yn y Gymraeg

Rhyngwladol

- Neges Heddwch ac Ewyllys Da - ymestyn llaw o gyfeillgarwch a thrafod materion sy'n bwysig i bobl ifanc ar lefel byd-eang
- Prosiectau penodol gyda phartneriaid yn Iwerddon, America a Japan
- Cyfleoedd gwirfoddoli a chyfnewid rhyngwladol.

Adnoddau

- Cylchgronau digidol yr Urdd
- Casgliad o adnoddau addysgol i gefnogi'r Cwricwlwm Newydd

Mae Urdd Gobaith Cymru yn gweithio'n rhanbarthol, felly mae llawer o weithgareddau sydd ar gael i ddisgyblion Casnewydd yn cael eu cynnal mewn lleoliad canolog ledled Gwent. Mae'r tabl canlynol yn dangos y gweithgareddau a gynhaliwyd gan yr Urdd ar draws blwyddyn academaidd 2018/19:

2018 - 2019	Nifer y plant oed Cynradd	Nifer y plant oed Uwchradd	Cyfanswm	Lleoliad
Tripiau preswyl	460	326	786	Canolfannau'r Urdd - Llangrannog, Glan-llyn a Chaerdydd
Eisteddfod	70	50	120	Ysgol Gyfun Cwm Rhymni - Caerffili ac Ysgol Gyfun Gwynllyw
Ymweliadau Ysgol Mistar Urdd	250		250	
Clwb Amser Cinio Cymraeg		20	20	Caerllion a Sain Silian
Twrnamaint chwaraeon	85	25	110	Lleoliadau amrywiol ar draws Gwent
Clybiau Chwaraeon	20			Pêl-droed - Gol / Gymnasteg - Gwent Is Coed
Gwaith ieuenctid 1:1		25	25	Ysgol Gyfun Gwent Is-Coed
Jambori	53		53	Pont-y-pŵl
Disney		2	2	
Cyfanswm	938	448	1366	

Coleg Gwent

Darperir cyfleoedd cyfoethogi'r Gymraeg i bob dysgwr. Mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, penodir 5 Llysgennad Cymraeg bob blwyddyn academiaidd i hyrwyddo, annog a hwyluso darpariaeth Gymraeg ar draws pob campws. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid Cymraeg y coleg megis y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Yr Urdd, Menter Iaith a Heddlu Gwent i ddathlu digwyddiadau cenedlaethol fel Dydd Miwsig Cymru, Dydd Gŵyl Dewi, Diwrnod Shwmae Su'mae, yn ogystal â digwyddiadau mewnol gan gynnwys Wythnos Gymraeg flynyddol a fforwm Cymraeg i ddysgwyr, Llais. Mae lefelau cyfranogiad ac ymgysylltu yn amrywio ar draws campysau ac adrannau ond mae tua 8 -12 o ddysgwyr yn ymgysylltu â phob un o'r gweithgareddau allgyrsiol cyfrwng Cymraeg hyn. Yn ystod blwyddyn academiaidd 2020-2021, bu 142 o ddysgwyr yn ymwneud â gweithgareddau Cymraeg / Dwyieithog.

Mae Coleg Gwent wedi cadarnhau gostyngiad yn nifer y dysgwyr sy'n ymgysylltu â gweithgareddau cyfoethogi a'r unedau a gwblhawyd yn Gymraeg o ganlyniad uniongyrchol i bandemig Covid-19. Rhwng 1 Medi 2019 a 6 Mawrth 2020, cynhaliwyd 827 o ddigwyddiadau i ddysgwyr drwy gyfrwng y Gymraeg, o'i gymharu â 208 ar gyfer y cyfnod o 9 Mawrth 2020 tan 31 Gorffennaf 2020. Roedd hyn yn ostyngiad amlwg yn enwedig pan, o dan amgylchiadau arferol, y byddai nifer sylweddol o ddigwyddiadau wedi eu hamserlenni i ddigwydd dros dymor yr haf.

Lle rydym yn anelu at fod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut y bwriadwn gyrraedd yno?

Drwy'r consortiwm rhanbarthol, bydd ysgolion yn cael cymorth pwrpasol yn unol â'u blaenoriaethau gwella y cytunwyd arnynt, Parhad Dysgu ac adfer a datblygu sgiliau iaith i gynnal a chodi safonau. Bydd hyn yn cynnwys dylunio adnoddau dysgu a datblygu sgiliau llythrennedd ac iaith. Darparu cefnogaeth barhaus i'r Siarter iaith mewn ysgolion Cymraeg a Saesneg drwy ddysgu proffesiynol, cymorth o ysgol i ysgol, a dilysu priodol. Ochr yn ochr â hyn, bydd dysgu proffesiynol a chymorth pwrpasol yn allweddol i helpu ysgolion weithredu Cwricwlwm i Gymru.

Wrth baratoi ar gyfer gweithredu'r canllawiau newydd ar gategoriâu iaith ysgolion, mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal ymarfer mapio llinell sylfaen yn nhymor yr hydref 2022 i amlinellu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd. Rhagwelir y bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i helpu i bennu targedau ar gyfer ymyriadau a gweithio gyda sefydliadau partner yn y dyfodol. Adroddir ar hyn yn flynyddol.

O ran Siarter iaith a Chymraeg Campus, mae'r tabl canlynol yn amlinellu'r targedau disgwyliedig erbyn 2027:

Siarter iaith			Cymraeg Campus	
Cynradd: Arian	Cynradd: Aur	Uwchradd: Cam 4 o 5	Cyflawni Arian	Cyflawni Aur
25%	75%	100%	25%	75%

Er mwyn cyflawni'r targedau hyn, mae'r GCA wedi ymrwymo i:

- Gyfleoedd dysgu proffesiynol gan gynnwys canolbwyntio ar ddatblygiad strategol Cymraeg Campus mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ar gyfer uwch arweinwyr, rhwydweithiau ar gyfer cydlynwyr (ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg) a /neu gyfarfodydd galw heibio bob hanner tymor;
- Cymorth pwrpasol i ysgolion yn unol â'r dull Gwella Ysgolion Rhanbarthol;
- Cefnogi ysgolion i ystyried datblygu Cymraeg Campus fel rhan o'u gwerthusiad ehangach o'r ysgol fel rhan o'r broses ddilysu;
- Codi proffil a marchnata'r Siarter Iaith / Cymraeg Campus drwy'r cyfryngau cymdeithasol;
- Hyrwyddo gwaith clwstwr effeithiol ym mhob clwstwr a dathlu llwyddiannau ar lefel ysgol a chlwstwr drwy'r cyfryngau cymdeithasol;
- Sicrhau bod cyfle tymhorol yn bodoli i ysgolion rannu arfer dda, cyd-gynllunio a chefnogi ei gilydd;
- Hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael i ddysgwyr ymgysylltu ag asiantaethau eraill fel Urdd Gobaith Cymru a'r Fenter Iaith mewn cyfarfodydd rhwydweithio a chynyddu presenoldeb y gwahanol sefydliadau mewn cyfarfodydd lle bo hynny'n bosibl;
- Hwyluso trefniadau fel y gall pob ysgol gynllunio'n weithredol ar gyfer cyflwyno'r Siarter yn seiliedig ar ddadansoddiad o gryfderau a meysydd i'w datblygu a nodwyd drwy gwblhau Holiadur Siarter Iaith bob dwy flynedd a monitro cynnydd yn erbyn targedau.

Mae bwriad i gysoni'r cynllun hwn â Strategaeth Iaith Gymraeg 5 mlynedd y Cyngor er mwyn sicrhau cydberthynas o ran amcanion. Mae'r cynllun hwn yn cael ei ddatblygu, ond bydd y llinyn addysg yn cyd-fynd â'r cynllun hwn a bydd yn cael ei adrodd yn unol â hynny. O fewn y strategaeth bresennol, mae'r Cyngor wedi cytuno ar Bartneriaeth Gymunedol gyda Dreigiau Casnewydd Gwent i godi proffil y Gymraeg mewn cymunedau lleol ac amrywiol a thrwy amrywiol ffrydiau addysg. Nod y prosiect yw datblygu cyfleoedd i bobl ifanc ennill sgiliau arwain a gweithio mewn tîm tra'n defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned a'r bwriad yw y bydd hyn yn dangos ac yn codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel iaith fyw y tu allan i faes addysg a gwaith.

Mae gan Ysgol Gyfun Gwent Is Coed hefyd fynediad at Weithiwr Ieuencid a ariennir ar y cyd gan yr Urdd a'r Gwasanaeth Ieuencid, a thrwy hyn gall gynnig pecyn o weithgareddau i ddiwallu anghenion unigol. Mae'r Urdd hefyd yn gweithio i ddatblygu darpariaeth Gymraeg i ieuencid yng Nghasnewydd. Bydd pob ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yn gallu cael mynediad i weithgareddau amrywiol drwy'r Rhaglen Cymraeg Pob Dydd.

Mae Menter Iaith Casnewydd yn cydweithio â rhwydwaith cenedlaethol o Fentrau Iaith i greu a rhannu adnoddau a chyfleoedd sy'n cefnogi dysgu a'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r gwaith hwn yn y gymuned leol ac ar-lein yn y gymuned ddigidol, gan ddarparu digwyddiadau a gweithgareddau i blant, rhieni a theuluoedd a chyfleoedd a lleoliadau ychwanegol ar gyfer dysgu a defnyddio'r Gymraeg. Maent hefyd yn darparu gofal ar ôl ysgol i ddisgyblion ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg gyda chyfleoedd hwyliog i gymdeithasu, chwarae a magu hyder a balchder yn y Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddisbarth mewn amgylchedd diogel, cyffrous a gofalgar. Y nod cyffredinol o fewn 5 mlynedd cyntaf y cynllun hwn yw sicrhau bod y clybiau hyn ar gael ym mhob un o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg Casnewydd.

Bydd mapio a chyfeirio yn cael eu gwella ar draws gwefan y Cyngor. Bydd dull mwy arloesol a deniadol yn cael eu datblygu ar draws y tudalennau gwe.

Coleg Gwent

Mae cynlluniau ar y gweill i ehangu a datblygu darpariaeth cyfoethogi'r Gymraeg a sefydlu cymuned Gymraeg fywiog, amrywiol a chynhwysol. Gan barhau i addasu i anghenion dysgwyr, y disgwyliad yw bod lefelau cyfranogiad dysgwyr ar gyfer gweithgareddau Cymraeg yn cynyddu i 70% dros y 5 mlynedd nesaf.

Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Erbyn diwedd yr adolygiad 5 mlynedd, bydd gan ysgolion cyfrwng Cymraeg sydd wedi ennill y wobwr aur hyder llawn i hunanwerthuso eu darpariaeth ar gyfer gweithredu'r Siarter laith yn gadarn a byddant yn gyfrifol am rannu eu harferion da yn annibynnol wrth ddatblygu'r Siarter gydag eraill.

Bydd pob ysgol a sefydlwyd rhwng yr adolygiad 5 mlynedd a diwedd y cylch 10 mlynedd yn gweithredu'r Siarter laith ac yn anelu at ennill gwobr sy'n adlewyrchu cynnydd priodol yn ôl dyddiad sefydlu'r ysgol.

Ar gyfer Cymraeg Campus, cynnal disgwyliadau dyfarniadau aur a safonau uchel mewn ysgolion sydd wedi ennill y wobwr gan gynnwys sicrhau proses effeithiol i werthuso, monitro a chynllunio ar gyfer cynnal safonau neu wella. Er mwyn sicrhau hyn, dylid rhannu arfer gorau yn helaeth rhwng ac ar draws ysgolion gydag ysgolion yn cefnogi ei gilydd yn annibynnol gyda'u gwerthusiad o ddarpariaeth y rhaglen. Yn ogystal, bydd yr GCA yn monitro cynnydd yn systematig yn barhaus yn erbyn cwblhau Holiadur Siarter laith bob dwy flwyddyn ar lefel ysgol a monitro cynnydd yn barhaus yn erbyn targedau i sicrhau bod safonau uchel yn cael eu cynnal.

O ran Coleg Gwent, maent wedi cadarnhau mai'r amcan dros y 10 mlynedd nesaf yw parhau i dyfu ac ehangu'r ddarpariaeth cyfoethogi'r Gymraeg ac ymdrechu i ddyblu lefelau ymgysylltu erbyn diwedd y degawd (284 o ddysgwyr / 90% o ymgysylltu â dysgwyr).

Data Allweddol

Mae'r data isod yn dangos nifer/canran yr ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n cyflawni Lefel Aur ar Gymraeg Campus.

Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol

2022 - 2023		2023 - 2024		2024 - 2025		2025 - 2026		2026 - 2027	
10	25%	15	37.5%	20	50%	25	62.5%	30	75%
2027 - 2028		2028 - 2029		2029 - 2030		2030 - 2031		2031 - 2032	
32	80%	34	85%	36	90%	38	95%	40	100%

Deilliant 6: Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg Gymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Beth yw'r sefyllfa nawr?

Yn ystod y cyfnod 2018-2019 a 2020-21 gwelwyd cynnydd o 38% yn y disgyblion Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn Gweithredu gan yr Ysgol (SA) a chynnydd o 25% yn nifer y disgyblion yn Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy (SA+) ar draws ein Hysgolion cynradd ac uwchradd. Cefnogir disgyblion ADY yn yr SA a'r SA+ drwy ddarpariaeth gyffredinol neu wedi'i thargedu ym mhob ysgol. Mae'r Tîm Cyfoethogi Cynhwysiant wedi cynghori pob ysgol ar sut i gefnogi anghenion disgyblion unigol a datblygu darpariaeth ADY yn yr ysgol. Mae Cyngorydd Cynhwysiant ALL wedi mynychu cyfarfodydd clwstwr ADY Cymru ac mae'r ALL wedi hwyluso cyfarfodydd clwstwr ADY Arweiniol i sicrhau bod ADY yn datblygu arferion yn unol â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (2018) Cymru a Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021.

Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm nifer y disgyblion â Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig (DAAA/SSEN) yn ein Hysgolion cyfrwng Cymraeg dros gyfnod o 3 blynedd sydd wedi aros yn gyson â chyfartaledd o 15 disgybl â Datganiad ar draws y sector Cynradd ac Uwchradd.

Blwyddyn Ariannol	Cyfanswm DAAA (Cynradd)	Cyfanswm DAAA (Uwchradd)	Cyfanswm Nifer y disgyblion â DAAA
2019 – 20	5	9	14
2020 - 21	6	11	17
2021-22 (Gorffennaf 2021)	7	9	16

Er nad oes gan Gasnewydd Ganolfan Adnoddau Dysgu (CAD) Cyfrwng Cymraeg, Ysgol Arbennig neu Uned Cyfeirio Disgyblion, yn 2020 daeth Allgymorth Awtistiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg o Ysgol Bryn Derw ar gael i gynnig cyngor a chefnogaeth arbenigol i'n Hysgolion Cymraeg. Dros y 3 blynedd diwethaf cafwyd 3 chais am ddarpariaeth Canolfan Adnoddau Dysgu ar gyfer disgyblion oed Cynradd oherwydd eu hanghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, dim ond un o'r lleoliadau CAD y gofynnwyd amdanynt a gytunwyd ac a weithredwyd yn 2020-21, sy'n golygu bod y disgybl wedi symud i CAD cyfrwng Saesneg.

Blwyddyn Ariannol	Nifer y ceisiadau am CAD ar gyfer disgyblion Cymraeg	Nifer y ceisiadau CAD a ddarparwyd ar gyfer disgyblion WM
2019 – 20	2	0
2020 - 21	1	1
2021-22 (Gorffennaf 2021)	0	0

Arweiniodd y 2 gais a wnaed am leoliad CAD yn 2019-20 i'r ALL gynnig lleoliad CAD ar gyfer disgybl Blwyddyn 5 a wrthodwyd gan y rhieni a benderfynodd yn Ddewisol i Addysgu yn y Cartref. Barnwyd nad oedd y cais arall yn briodol gan Banel AAA yr ALL ac fe arhosodd yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg gyda chyllid ychwanegol; fodd bynnag, trosglwyddodd y disgybl i Ganolfan Anawsterau Dysgu Cymedrol (ADC) arbenigol cyfrwng Saesneg ar gyfer eu haddysg uwchradd ar gais y rhieni a'r ysgol.

Yn 2020, gwnaed cais CAD ar gyfer disgybl Blwyddyn 2 y cytunwyd arno gan yr ALL a chynigiwyd a derbyniwyd lleoliad mewn CAD cynradd cyfrwng Saesneg gan y rhieni. Bwriedir datblygu CAD cyfrwng Cymraeg ar gyfer Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli o fewn y 5 mlynedd nesaf i sicrhau bod disgyblion ADY yn cael eu cefnogi'n briodol gyda'u hanghenion drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Protocol Symud a Reolir Cynradd wedi'i ddatblygu ar gyfer pob clwstwr Ysgol Gynradd ledled Casnewydd, gan gynnwys y clwstwr Cymraeg. Ochr yn ochr â hyn, mae trafodaethau'n parhau i ystyried sut y gellir gweithredu Protocol Symud a Reolir cyfrwng Cymraeg rhanbarthol a'i ymgorffori i gefnogi disgyblion oedran ysgol uwchradd yn y sector Cymraeg. Cynrychiolir penaethiaid ysgolion Cymraeg ar Fforwm ADY y Cyngor.

Fodd bynnag ar hyn o bryd nid oes gan yr ALL unrhyw Seicolegwyr Addysg, Cynghorwyr Athrawon na Swyddogion AAA sy'n siarad Cymraeg ac nid oes unrhyw ddarpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr ADY. Fodd bynnag, mae'r ALL wedi ymrwmo i weithio gydag ALLau eraill ar draws rhanbarth Consortiwm De-Ddwyrain Cymru i ystyried atebion ar gyfer cymorth arbenigol i ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Trwy waith Trawsnewid ADY, cwblhawyd archwiliad o'r holl ddeunyddiau asesu sydd ar gael yn Gymraeg. Mae adnoddau ADY Cymraeg penodol wedi eu nodi a'u prynu ar gyfer pob clwstwr Cymraeg ar draws y rhanbarth. Mae rhaglen hyfforddi ADY ar gyfer datblygu sgiliau Cydlynwyr ADY, athrawon dosbarth a Chynorthwyrwyr Addysgu wedi cael ei chydlynu'n rhanbarthol ac mae adnoddau gan gynnwys modiwlau hyfforddi ar gael drwy safle Hwb. Mae adnoddau Blynyddoedd Cynnar ADY Cymraeg, gan gynnwys hyfforddiant ar gyfer Cydlynwyr ADY y Blynyddoedd Cynnar, ar gael ar Hwb a sianel Youtube bwrpasol sy'n hygyrch i holl ymarferwyr y Blynyddoedd Cynnar. Mae clinigau ADY y Blynyddoedd Cynnar ar gael bob tymor i ymarferwyr gael mynediad atynt. Bydd map a chanllawiau darpariaeth ADY Casnewydd ar gael yn Gymraeg yn nhyrnwyr yr hydref 2021. Yn ogystal, mae llyfrynnau Llesiant a Phontio MIND wedi'u cyfieithu i gefnogi disgyblion cynradd ac uwchradd. Mae allgymorth penodol ar gyfer ASA a gaiff ei weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael ac mae cyllid wedi'i ddyrranu i bob Ysgol brynu system mapio darpariaeth.

Mae amrywiaeth o opsiynau hyfforddi gan gynnwys Dulliau Adferol, Ymwybyddiaeth Ymlyniad, Ymwybyddiaeth Awtistiaeth, addasiadau rhesymol a hyfforddiant ymyrraeth gorfforol cyfyngol Team Teach ar gael i bob Ysgol. Fodd bynnag, mae hyfforddiant wedi bod drwy gyfrwng y Saesneg oherwydd diffyg hyfforddwyr sy'n siarad Cymraeg.

Lle rydym yn anelu at fod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut y bwriadwn gyrraedd yno?

O fewn dwy flynedd gyntaf y cynllun hwn, y nod yw datblygu cymorth allgymorth ac arbenigol ar gyfer sectorau cynradd ac uwchradd o Ganolfan Gyflawni'r Bont, Ysgol Bryn Derw, Maes Ebwy a'r Canolfannau Adnoddau Dysgu, er mwyn datblygu a mireinio darpariaeth gyffredinol ac wedi'i thargedu ymhellach.

Bydd yr Ysgolion Cymraeg yn cael cyfle i hyfforddi o leiaf dau aelod o staff fel hyfforddwyr Team Teach i arwain hyfforddiant i'r Ysgolion ar ymyriadau corfforol cyfyngol drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd cyfleoedd pellach yn cael eu harchwilio i ddatblygu sgiliau staff o fewn y clwstwr ac i ddod o hyd i hyfforddiant arbenigol yng Nghymru.

Er mwyn gallu datblygu a mireinio darpariaeth gyffredinol ac wedi'i thargedu, bydd yn hanfodol ymchwilio i addysgeg a methodoleg caffael iaith er mwyn gwella dysgu proffesiynol y staff yn ein

hysgolion Cymraeg ac ymgorffori'r offeryn matrices "Dileu Rhwystrau i Ddysgu" rhanbarthol ar draws pob ysgol. Mae'r offeryn hwn yn ddiidoli'r strategaethau a'r adnoddau y gall athrawon dosbarth eu defnyddio i gefnogi eu disgyblion yn yr ystafell ddosbarth.

O ran recriwtio, dylai pob cam o'r llwybr dysgu proffesiynol gynnwys staffio ADY i fynd i'r afael â phroblem recriwtio'r sector cyfan. Bydd hyn yn sicrhau bod gan ein Hysgolion Cymraeg ddigon o adnoddau staffio i ddarparu darpariaeth gyffredinol wedi'i thargedu ar gyfer disgyblion ag ADY.

Mae prinder cenedlaethol o wasanaethau ADY arbenigol sy'n siarad Cymraeg gan gynnwys Seicolegwyr Addysg, fodd bynnag erbyn diwedd 5 mlynedd cyntaf y cynllun hwn, y nod yw sicrhau cydweithio ar draws consortia i ddarparu Cymorth ADY fel Seicoleg Addysgol ac Ymgynghorwyr Athrawon.

Mae ymrwymiad i agor Canolfan Adnoddau Dysgu Cynradd Gymraeg, a bydd data ADY yn llywio'r amser priodol o fewn y cyfnod hwn i agor y Ddarpariaeth CAD arbenigol cynradd yn Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli. Bydd y CAD a'r Ganolfan Drochi a fydd hefyd wedi'i lleoli yn Nant Gwenlli yn cydweithio i fynd i'r afael ag ADY disgyblion.

Bydd cyfarfodydd clwstwr Penaethiaid a chyfarfodydd penodol Cydlynwyr ADY cyfrwng Cymraeg yn cael eu defnyddio i gefnogi a chydlynu camau gweithredu sydd â'r nod o gyflawni'r targedau sy'n gysylltiedig â'r maes canlyniad hwn. Bydd taflen wybodaeth i rieni yn cael ei datblygu gan ganolbwyntio ar y cymorth sydd ar gael mewn Ysgolion Cymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, a fydd yn cael eu darparu i rieni drwy'r broses dderbyn.

Bydd gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i ddwyn sylw at adnoddau ac asesiadau cenedlaethol megis profion darllen a sillafu, a fydd ar gael i ysgolion Cymraeg y bydd angen iddynt fod yn gwbl ymwybodol o'r cynllun i gefnogi dysgwyr ADY.

Wrth i ddarpariaethau Gymraeg y Blynyddoedd Cynnar gynyddu, bydd cymorth a hyfforddiant pwrpasol ar gael wedi ei seilio ar ofynion penodol pob ysgol a darparwr Blynyddoedd Cynnar. Caiff yr angen am hyfforddiant ei fonitro'n agos dros y 5-10ml nesaf drwy drafodaethau gyda Phenaethiaid a Rheolwyr a chaiff ei bennu gan garfannau disgyblion a lefel sgiliau staff.

Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Bydd ail Ganolfan Adnoddau Dysgu cynradd (CAD) pwrpasol ar gael i ddysgwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn diwedd y cynllun 10 mlynedd hwn ac yn ogystal, bydd adolygiad o'r ddarpariaeth ADY Cymraeg yn erbyn y galw i sicrhau digonolrwydd ar draws y cynnig addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghasnewydd.

Bydd y gwaith o ddatblygu CAD Uwchradd yn cael ei adolygu'n flynyddol gan ystyried dadansoddiad o dueddiadau data yn dilyn agor y CAD Cynradd. Bydd hyn yn sicrhau y gellir diwallu anghenion ADY disgyblion sy'n pontio i'r Ysgol Uwchradd mewn modd amserol.

Bydd y cydweithio gyda Llywodraeth Cymru ynghylch datblygu asesiadau ac adnoddau dwyieithog cenedlaethol yn parhau dros oes y cynllun hwn.

Deilliant 7: Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Beth yw'r sefyllfa nawr?

Mae'r Cyngor wrthi'n creu gweledigaeth ac edefyn rhwng ei amrywiol strategaethau Cymraeg a fydd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion ar draws sawl maes sy'n gysylltiedig â Strategaeth Iaith Gymraeg 5 mlynedd y Cyngor.

Ffrwd sydd wedi'i chynnwys yn y strategaeth yw gweithio gyda chyflogwyr, partneriaid a rhanddeiliaid i hyrwyddo pwysigrwydd a manteision economaidd siarad neu ddysgu Cymraeg, a sut y gall hyn helpu a chefnogi disgyblion, myfyrwyr ac unigolion i gael gwaith.

Mae cydweithwyr, partneriaid a rhanddeiliaid yng Nghasnewydd yn ystyried nifer o weithgareddau hyrwyddo'r Gymraeg, gan gynnwys hyrwyddo manteision siarad Cymraeg yn y gweithle a sut y gall hyn wella cyfleoedd cyflogaeth. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio astudiaethau achos, hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil, mabwysiadu polisi Cymreig clir/syml, a chynnal archwiliad sgiliau.

Mae'r Cyngor yn edrych ar bwysigrwydd hyrwyddo'r Gymraeg yn fewnol ac mae wedi mabwysiadu Polisi Sgiliau'r Gymraeg gyda sawl egwyddor allweddol, gan gynnwys:

- Creu amgylchedd cefnogol drwy nodi egwyddorion Cymraeg Clir
- Cynyddu'r galw a'r cyfleoedd i staff ddatblygu eu sgiliau a'u hyder o ran y Gymraeg
- Buddsoddi yn natblygiad dysgwyr a siaradwyr Cymraeg mewnol;
- Hyrwyddo'r Cyngor fel gweithle sy'n gefnogol i'r Gymraeg a siaradwyr Cymraeg.

Mae hyn i gyd yn rhan o strategaeth a chynllun gwaith ehangach i hyrwyddo pwysigrwydd cymhwyster yn y Gymraeg a'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, gyda'r nod o ddenu mwy o staff sy'n siarad Cymraeg.

Er mwyn helpu gyda chynllunio'r gweithlu ac yn dilyn trafodaethau gydag aelodau'r Gronfa a Fforwm y Gymraeg, comisiynodd Cyngor Dinas Casnewydd Cwmni Iaith i wneud gwaith ymchwil yn ymwneud â'r bylchau o ran sgiliau Cymraeg ar draws sectorau y blynyddoedd cynnar ac addysg yng Nghasnewydd. Mae'r ymchwil yn canolbwyntio ar ffyrdd y gellir datblygu gweithlu sydd â sgiliau priodol ar draws y Ddinas. Mae'r ymchwil yma yn cyd-fynd â nod Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a bydd yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni yn erbyn y cynllun hwn. Mae'r adroddiad yn gwneud 6 argymhellid a fydd yn helpu'r awdurdod lleol i weithio gyda rhanddeiliaid eraill a chyflogwyr blynyddoedd cynnar ac addysg i ddatblygu gweithlu. Wrth symud ymlaen, bydd hyn yn cynnwys y gwaith da y cyfeirir ato eisoes, gan hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil cyflogaeth gyda phartner y Bwrdd Sgiliau Cywir ac aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, cynyddu apêl gyrfaedd cyfrwng Cymraeg drwy weithio gyda Gyrfa Cymru i dynnu sylw at fanteision dysgu a defnyddio sgiliau Cymraeg, a gweithio gyda phartneriaid i sicrhau digon o gyfleoedd hyfforddi.

Gan weithio gyda Gyrfa Cymru, mae'r Cyngor wedi helpu i ddatblygu nifer o flogiau fideo a sgysiau i hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil yn y gweithle a fydd yn helpu pobl i gael swyddi a chael gwaith a dangos sut mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio yn y gweithle. Bwriedir i hyn gefnogi digwyddiadau gyrfaedd i annog disgyblion i chwilio am waith a fydd yn datblygu eu sgiliau iaith.

Un maes penodol sy'n peri pryder a nodwyd gan y Cyngor, ysgolion a phartneriaid a rhanddeiliaid allanol sy'n eistedd ar y Fforwm Addysg Gymraeg yw cynllunio'r gweithlu. Nid yw hyn wedi'i gyfyngu i ysgolion. Bydd sicrhau bod digon o staff priodol ar gael i gefnogi'r cynnydd arfaethedig mewn lleoedd cyn-ysgol ac ysgolion statudol – yn enwedig yn y de-ddwyrain lle bydd y cynnydd yn erbyn y waelodlin yn sylweddol a lle bydd galw cystadleuol ymhlith nifer o ardaloedd awdurdodau lleol – yn allweddol i lwyddiant cyffredinol y CSCA hwn. Mae strategaeth datblygu gweithlu "Chwarae" hefyd ar y gweill drwy Adfywio, Buddsoddi a Thai.

Mae Ysgol Gymraeg Casnewydd yn Ysgol Bartneriaeth Arweiniol gyda chwrs AGA Cynradd B(Anrh) Prifysgol De Cymru gyda chwrs SAC. Mae'r Pennaeth yn aelod o Grŵp Gweithredol Partneriaeth AGA PDC. O fewn y bartneriaeth ceir Cymunedau Dysgu gydag Arweinydd Sicrwydd Ansawdd o bob Ysgol Bartneriaeth Arweiniol sy'n ganolog i bob cymuned. O fewn y Gymuned Ddysgu Gymraeg, mae pob un o'r 3 ysgol gynradd Gymraeg bresennol yng Nghasnewydd yn cydweithio i gefnogi twf athrawon rhagorol.

Fodd bynnag, mae pwysau cynyddol i recriwtio athrawon uwchradd cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn bryder sylweddol ac mae angen ymateb rhanbarthol a chenedlaethol brys. Mae Ysgol Gyfun Gwent Is Coed wedi ffurfio partneriaeth â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd i gefnogi eu rhaglen hyfforddi athrawon, ac mae tri myfyriwr yn cael cymorth ar hyn o bryd i ymgymryd â'u TAR. Mae partneriaeth ar wahân gyda'r Brifysgol Agored yn galluogi cyflogi athro heb gymwysterau i astudio ar gyfer TAR mewn Gwyddoniaeth tra'n gweithio yn yr ysgol.

Mae'r data a gedwir gan y Cyngor yn amlinellu'r wybodaeth ganlynol o ran sut mae'r 182 o staff a gyflogir ar hyn o bryd ar draws pedair ysgol Gymraeg Casnewydd yn disgrifio eu Sgiliau Iaith Gymraeg:

Uwch mewn deall Cymraeg	Uwch mewn darllen a siarad Cymraeg	Uwch mewn ysgrifennu Cymraeg
91%	90%	88%

Mae'r ALI hefyd yn cadw data a gesglir drwy arolwg Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgolion (CBGY/SWAC) o ran sgiliau iaith ymarferwyr, ac mae'r GCA wedi casglu data lleol sy'n benodol i ysgolion ar anghenion hyfforddi iaith a methodoleg staff sy'n cael ei ddefnyddio i dargedu ysgolion ac ymarferwyr. Mae'r data diweddaraf a gasglwyd yn amlinellu'r canlynol o ran sgiliau cyfrwng Cymraeg:

Ysgolion Cynradd

Dim Sgiliau	Lefel Mynediad	Lefel Sylfaenol	Lefel Canolradd	Lefel Uwch	Lefel Hyfedredd	Gwybodaeth heb ei roi	Cyfanswm
8	198	390	86	17	23	0	722
1.1%	27.4%	54.0%	11.9%	2.6%	3.2%	0%	100%

Mae'r lefelau'n cyd-fynd â fframwaith cymhwysedd iaith Llywodraeth Cymru ar gyfer ymarferwyr addysg

Ysgolion Uwchradd

Dim Sgiliau	Lefel Mynediad	Lefel Sylfaenol	Lefel Canolradd	Lefel Uwch	Lefel Hyfedredd	Gwybodaeth heb ei roi	Cyfanswm
340	143	36	17	7	46	73	662
51.4%	21.6%	5.4%	2.6%	1.1%	6.9%	11.0%	100%

Mae'r lefelau'n cyd-fynd â fframwaith cymhwysedd iaith Llywodraeth Cymru ar gyfer ymarferwyr addysg

Yn ogystal, o'r 725 o staff addysgu ysgolion cynradd a gwblhaodd y cyfrifiad, mae 25 yn disgrifio eu bod yn gallu gweithio neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg er nad ydynt ar hyn o bryd. O'r 688 o staff addysgu ysgolion uwchradd a gwblhaodd y cyfrifiad, mae 35 yn disgrifio eu bod yn gallu gweithio neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg er nad ydynt ar hyn o bryd.

Mae'r GCA yn darparu ystod o gyfleoedd Dysgu Proffesiynol i ymarferwyr mewn ysgolion i ddatblygu eu sgiliau iaith a methodoleg Cymraeg. Mae'r GCA hefyd yn gweithio gyda phartneriaid i recriwtio i'r Cynllun Sabothol ac yn cyfeirio staff at amrywiaeth o gyfleoedd dysgu iaith ar-lein a lleol drwy Dysgu Cymraeg. Mae 15 lle ar gael ar draws rhanbarth De-ddwyrain Cymru bob blwyddyn ar Gynllun Sabothol y Gymraeg mewn Blwyddyn. Dros y tair blynedd diwethaf, mae chwe athro o Gasnewydd wedi cofrestru ar yr hyfforddiant hwn, gyda dau yn cymryd rhan yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol hon yn 2020/21. Mae pob ymarferydd sydd wedi cwblhau'r cynllun Cymraeg mewn Blwyddyn wedi derbyn cyllid ychwanegol gan y GCA er mwyn parhau â'u taith o ran y Gymraeg a datblygu prosiectau a ffrydiau gwaith a fydd yn adeiladu ar gyfalaf ieithyddol. Mae'r grant ychwanegol yn amodol ar delerau ac amodau a chaiff y rhain eu monitro trwy ymweliadau cymorth ac arweiniad penodol gan GCA.

Mae tîm Dysgu Proffesiynol GCA yn cydweithio â'r grŵp Dysgu Proffesiynol traws-ranbarthol i ddatblygu darpariaeth ar gyfer yr holl staff, gan gynnwys darpariaeth Gymraeg, ar hyd y llwybr dysgu proffesiynol.



Cyflwyno rhaglenni Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol i gefnogi dilyniant staff, gan gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer ysgolion Cymraeg, ar hyd y llwybr dysgu proffesiynol cenedlaethol, gan gefnogi datblygiad gweithlu Cymraeg medrus a'r gallu i arwain. Mae hyn yn cynnwys:

- Llwybr Dysgu Cynorthwydd Addysgu (LIDCA/TALP) - Sef cynnig dysgu proffesiynol Cenedlaethol cwbl ddwyieithog ar gyfer CAau gan gynnwys: Ymsefydlu ar gyfer CAau sydd newydd eu penodi, rhaglen CA wrth eu gwaith, rhaglen CALU uchelgeisiol ac asesiad CALU.
- ANG – Cynnig dysgu proffesiynol sefydlu cenedlaethol ar gyfer ANG, Mentoriaid Sefydlu a Dilyswyr Allanol (cynnig cwbl ddwyieithog)
- Llwybr Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol – mae hynny'n cynnwys cynnig cwbl ddwyieithog ar gyfer RhDAC/MDLP (rhaglenni datblygu arweinwyr canol), Uwch Arweinwyr ac ati, Rhaglen ddatblygu Darpar Benaethiaid - paratoi ar gyfer CPCP, Penaethiaid Newydd a Dros Dro a rhaglenni datblygu Penaethiaid Profiadol.
- Partneriaeth Addysg Gychwynnol Athrawon Strategol yn gweithio gyda SAU i sicrhau bod myfyrwyr AGA ac ANG yn cael profiadau cadarnhaol o addysgu mewn ysgolion Cymraeg lleol i gefnogi recriwtio lleol. e.e. partneriaeth GCA ar gyfer y cyfnod cynradd gyda PDC.

Mae gan y GCA dîm iaith Gymraeg rhanbarthol penodol sy'n arwain ar gymorth a dysgu proffesiynol ar gyfer y Gymraeg ar draws ysgolion Cymraeg a Saesneg.

- Arwain ar leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Partner Cwricwlwm Cymraeg a Llythrennedd (Iaith Iaf)
- Partner Cwricwlwm Cymraeg yn y cyfrwng Saesneg a Rhyngwladol
- Partner Cwricwlwm Cysylltiol, Cymraeg yn y cyfrwng Saesneg (uwchradd)
- 2.6 Partneriaid Cwricwlwm Cysylltiol, Cymraeg yn y cyfrwng Saesneg (cynradd)

Mae'r GCA yn darparu cymorth penodedig i Gyngorwyr Her Cyfrwng Cymraeg ysgolion ac yn tynnu ar Benaethiaid o fewn y GCA ac ar draws rhanbarthau i sicrhau arbenigedd cyfrwng Cymraeg ar y lefel gynradd ac uwchradd. Caiff cymorth rhwng ysgolion â'i gilydd ar gyfer y sector Cymraeg ei seilio ar arfer gorau o fewn ac ar draws rhanbarthau.

Ceir unigolion o fewn y sefydliad sydd â sgiliau Cymraeg, gan gynnwys o fewn y tîm dysgu proffesiynol rhanbarthol, ond cydnabyddir bod angen cefnogi'r gweithlu ehangach i ddatblygu eu sgiliau iaith.

Mae'r GCA wedi sefydlu gweithgor staff pwrpasol gyda'r dasg o ddatblygu'r Gymraeg yn y gweithle a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn ddyddiol. Mae staff wedi'u cyfeirio at gyfleoedd dysgu proffesiynol mewnol ac allanol (y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol). Mae Tîm ymroddedig ar gael i staff gael gafael ar adnoddau a ffeiliau sain i gefnogi twf yn y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Mae'r gweithgor staff yn datblygu fframwaith ar gyfer staff o nawr ymlaen

Ar hyn o bryd mae cynllun Cam wrth Gam i Ysgolion gan Mudiad Meithrin yn cefnogi l disgybl o Gasnewydd sy'n mynychu Ysgol Gyfun Gwynllyw a chaiff hyn ei gyflwyno i ddysgwyr Blwyddyn 12 yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed o fis Medi 2021. Mae Cynllun Prentisiaeth Mudiad Meithrin hefyd ar gael i roi cyfle i unigolion ymgymryd â chymhwyster Gofal Plant er nad oes neb yn manteisio arno yng Nghasnewydd ar hyn o bryd.

Nod cynllun yr Academi yw cynnig ystod eang o gyfleoedd datblygu a hyfforddi i'r holl staff a gwirfoddolwyr sy'n rhan o gymuned Mudiad Meithrin. Darperir yr hyfforddiant hwn mewn gwahanol fformatau, gan gyfuno cyswllt traddodiadol wyneb yn wyneb ac ar-lein, gan alluogi dysgwyr i astudio ar adegau sy'n gyfleus iddynt. Mae Croesi'r Bont hefyd yn cyflwyno methodoleg trochi iaith o fewn Cylchoedd Meithrin ac yn sicrhau pontio ieithyddol o'r Cylchoedd i ysgolion Cymraeg.

Mae Clebran yn darparu cymorth iaith i ddarpariaethau cyfrwng Saesneg i'w galluogi i ddefnyddio'r Gymraeg yn achlysurol mewn lleoliadau. Mae cwrs Cymraeg yn y Gweithle newydd hefyd wedi bod ar gael yn ddiweddar i weithwyr Gofal Plant sy'n dymuno gwella eu sgiliau Cymraeg. Ar hyn o bryd mae Mudiad Meithrin yn gweithio gyda Phrifysgol Metropolitan Caerdydd i sicrhau bod lleoliadau Cylchoedd Meithrin yn cael eu cynnig fel opsiynau lleoliad ar gyfer cyrsiau blynyddoedd cynnar.

O fewn lleoliadau presennol y Cylch Meithrin yng Nghasnewydd, mae 4 aelod o staff yn siarad Cymraeg yn rhugl ac mae 4 aelod o staff yn dysgu Cymraeg.

Mae sgiliau Cymraeg staff academaidd Coleg Gwent (ym mis Mehefin 2021) fel a ganlyn (nid yw hyn yn cynnwys staff Dysgu Cymraeg Gwent):

Rhugl	Uwch	Canolradd	Dim
6 (1%)	14 (2%)	23 (4%)	553 (93%)

Mae Coleg Gwent wedi nodi bod nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg ar lefel lle gallant yn hyderus gyflwyno cwricwlwm yn Gymraeg yn llawer is na'r lefelau sydd eu hangen arnynt er mwyn ehangu eu cynnig cwricwlwm Cymraeg a dwyieithog yn sylweddol. Mae materion hanesyddol a pharhaus ynghylch recriwtio staff darlithio sy'n siarad Cymraeg sydd ag arbenigedd pwnc perthnasol yn broblem wirioneddol yn y rhanbarth. Mae'r coleg wedi cael rhywfaint o lwyddiant dros y blynyddoedd diwethaf o ran uwchsgilio staff sydd â sgiliau Cymraeg sylfaenol hyd at lefel ganolradd (drwy Gymraeg Gwaith a darpariaethau Cymraeg i Oedolion eraill), ond ni fydd y dull organig hwn yn unig yn cael effaith sylweddol ar y ddarpariaeth Gymraeg a'r cynnig cwricwlwm yn y tymor canolig i'r hirdymor.

Mae Prifysgol De Cymru yn adrodd bod 52 aelod o staff addysgu yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20 (y data diweddaraf sydd ar gael), sy'n cyfateb i 3.1% o gyfanswm nifer y staff academaidd.

Lle rydym yn anelu at fod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut y bwriadwn gyrraedd yno?

O fewn pum mlynedd cyntaf y cynllun hwn, ein nod yw sicrhau bod pob swydd yn ein hysgolion Cymraeg yn cael eu llenwi â staff o safon uchel sydd â chymwysterau priodol. Mae'r pwysau cynyddol ar allu i recriwtio athrawon uwchradd Cymraeg yn bryder sylweddol ac mae angen ymateb rhanbarthol a chenedlaethol brys ar hyn. O'r herwydd, rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n hysgolion Cymraeg, y consortiwm rhanbarthol a Llywodraeth Cymru drwy gyfres o weithgorau wedi'u targedu i nodi diffygion yn y ddarpariaeth a'r moddau y gellir mynd i'r afael â hyn.

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi datblygu Cynllun Hyrwyddo o fewn ei grŵp Hyrwyddo'r Strategaeth Gymraeg – is-grŵp o'r Fforwm Addysg Gymraeg. Mae cefnogi datblygiad gweithlu'r dyfodol yn rhan benodol o'r cynllun hwn. O fewn blwyddyn gyntaf y CSCA, bydd y Cyngor yn sefydlu gweithgor a fydd yn cynnwys swyddogion o'r Gwasanaeth Addysg a'r tîm Adnoddau Dynol ynghyd â Phenaethiaid Cymraeg, y GCA a Gyrfa Cymru i gynnal dadansoddiad o anghenion y gweithlu a'r cyfeiriad ar gyfer y model twf addysg Gymraeg a amlinellir o fewn y cynllun strategol 10 mlynedd.

Bydd y Cyngor yn cynnal dadansoddiad rheolaidd o'r holl ffynonellau data er mwyn deall tueddiadau yn y galw am athrawon cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn gofyn am ragamcanu cyfraddau pontio blynyddol dysgwyr o addysg gynradd i addysg uwchradd ac edrych ar dueddiadau o ran nifer yr athrawon sy'n symud i rolau arwain, symud ysgolion neu adael / ymddeol o'r proffesiwn. Yn seiliedig ar y dadansoddiad data o sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu byddwn yn gosod targedau ar gyfer cynyddu cyfran y gweithlu sydd â sgiliau iaith ar lefel sylfaen, ac ar lefel ganolradd neu uwch ac yn adrodd ar y rhain fel rhan o waith monitro blynyddol y CSCA. Bydd hyn yn sicrhau y gall Llywodraeth Cymru gynllunio'n ddigonol y ddarpariaeth o gyrсияu'r Cynllun Sabothol a gweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddarparu ystod o gyrсияu i alluogi ymarferwyr i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg yn unol â'r safonau proffesiynol.

Bydd y gwaith hwn yn cynnwys dadansoddiad o ddata Cyfrifiad blynyddol y gweithlu ysgolion (CBGY) i ragweld anghenion staffio dros y blynyddoedd i ddod, gan edrych ar dueddiadau sy'n ymwneud â swyddi gwag ar bob lefel a hefyd sicrhau bod gan raglenni arweinyddiaeth y gallu i gyflawni'n llwyddiannus nifer y Penaethiaid fydd eu hangen yn y sector Cymraeg wrth i ni ymdrechu i gyrraedd y targedau a gynhwysir yn y cynllun hwn. Yng Nghasnewydd, mae ysgolion Cymraeg yn cael eu sefydlu o dan fodel egin sy'n golygu bod gofynion staffio'n cael eu hadeiladu dros nifer o flynyddoedd, rhywbeth a ddylai helpu wrth gynllunio'r gweithlu. Erbyn blwyddyn academaidd 2026/27, bydd Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli yn gweithredu fel ysgol 2 ddsbarth mynediad ar draws y Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 3, ac o dan drefniant 1 dosbarth mynediad ym Mlynnyddoedd 4 a 5. Yn ogystal, bydd dau ddsbarth meithrin rhan-amser, Canolfan Adnoddau Dysgu ac Uned Drochi. Os yn llwyddiannus, bydd darpariaeth ychwanegol drwy'r ail Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg hefyd wedi'i chreu, er efallai erbyn yr adeg hon mai dim ond ar gyfer disgyblion Meithrin a Derbyn y bydd hynny. Bydd Ysgol Gyfun Gwent Is Coed wedi tyfu'n sylweddol a gallai fod yn agosáu at gapasiti llawn.

O ran mapio llwybrau gyrfa mewn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd angen i ni gysylltu â phartneriaid ehangach ym meysydd Addysg Bellach, Addysg Uwch a Gyrfa Cymru i ystyried ffyrdd arloesol o fynd i'r afael â'r broblem hon o ran y gweithlu a'i gywiro. Er enghraifft, ar hyn o bryd nid oes llwybrau uwchradd Cymraeg ar gyfer addysg gychwynol athrawon uwchradd ar draws y rhanbarth. Bydd angen i lwybrau cychwyn fod yn arloesol a bydd angen hyblygrwydd gan y rheoleiddiwr er mwyn bod yn ymarferol. Wrth ystyried ffyrdd o ehangu'r gweithlu, bydd y Cyngor, y consortia rhanbarthol a phartneriaid eraill yn:

- Darparu rhaglen ranbarthol barhaus o ddysgu proffesiynol i gefnogi datblygiad iaith a methodoleg yn gysylltiedig ag angen;

- Darparu hyfforddiant iaith arbenigol a gweithio gyda chymunedau ysgolion drwy'r model Ysgol Rhwydwaith Dysgu i rannu arfer gorau o ran addysgu a dysgu;
- Cefnogi asesiadau personol cywir yn erbyn disgrifiadau'r Fframwaith Cymwyseddau Iaith Cenedlaethol a dealltwriaeth ohono gan sicrhau bod dysgu proffesiynol rhanbarthol yn nodi'n glir ffocws/lefel sgiliau pob digwyddiad hyfforddiant iaith;
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i deilwra a gweithredu modelau Cynllun Sabothol yn y dyfodol a chefnogi recriwtio;
- Darparu cymorth dilynol i fynychwyr y Cynllun Sabothol, a gweithio gyda mynychwyr y Cynllun Sabothol, yn enwedig graddedigion Cymraeg mewn Blwyddyn i feithrin gallu drwy'r clwstwr rhanbarthol a'r model YRhD;
- Darparu dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â'r continwwm dysgu iaith er mwyn helpu ysgolion i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru;

Fel rhan o'r cynllun hwn felly, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i:

- Nodi'r gweithlu sydd ei angen i ddarparu addysg Gymraeg dros oes y cynllun hwn;
- Gweithio gyda'r consortia rhanbarthol lleol i arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â chynllunio a chefnogi gwell sgiliau Cymraeg mewn staff ar draws pob ysgol;
- Sicrhau bod cyflawni'r targed cyffredinol yn cael ei ystyried mewn unrhyw benderfyniadau cynllunio ynghylch safonau addysgol Cymraeg ar draws ardal yr awdurdod lleol.

Mae Mudiad Meithrin hefyd wedi ymrwymo i:

- Gyflwyno llwyfan ymgyrchu digidol i recriwtio staff i leoliadau blynyddoedd cynnar
- Cefnogi mwy o staff i ddysgu Cymraeg a gweithio yn y Cylchoedd Meithrin
- Nodi cynlluniau cymhelliant i gefnogi lleoliadau blynyddoedd cynnar
- Sicrhau bod yr opsiwn i weithio yn y Blynyddoedd Cynnar yn cael ei gynrychioli mewn ffeiriau Swyddi yn lleol

Yn ystod y 5 mlynedd cyntaf, bydd targedau Coleg Gwent yn gynydd 50% o ran nifer y staff academiaidd sydd â sgiliau Cymraeg rhugl, a chynydd o 50% yn nifer y staff academiaidd sydd â sgiliau Cymraeg lefel uwch. Mae'r targedau hyn fel a ganlyn:

Rhugl	Uwch
12	18

Bydd y cynnydd hwn yn galluogi'r coleg i ehangu ei ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog ar hyn o bryd i feysydd cwricwlwm Cymraeg â blaenoriaeth eraill (fel y'u pennir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol).

Bydd y coleg yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol er mwyn hwyluso'r cynnydd hwn:

- Parhau i gyflwyno'r rhaglen Cymraeg Gwaith yng Ngholeg Gwent gyda'r prif nod o uwchsgilio staff lefel Canolradd i lefel Uwch;
- Cymryd rhan yng nghynllun mentora Sgiliaith er mwyn cefnogi staff gyda darpariaeth Gymraeg a dwyieithog;
- Chwilio am gyfleoedd i gymell a denu staff sy'n siarad Cymraeg o bob cwr o'r wlad;
- Edrych ar opsiynau i lacio gofynion TAR mewn rhai sefyllfaoedd er mwyn denu mwy o ymgeiswyr. Bydd yr unigolion hyn yn cael eu noddi i gwblhau ein TAR mewnol yn 2 flynedd gyntaf eu cyflogaeth.

Dros y 5 mlynedd nesaf, bydd y GCA yn datblygu ac yn ymgorffori dysgu proffesiynol ar gyfer y Gymraeg (anffurfiol a ffurfiol fel y bo'n briodol) fel rhan o hawl dysgu proffesiynol staff y GCA.

Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Ar ddiwedd y cynllun 10 mlynedd hwn, nod y Cyngor yw sicrhau bod y ddarpariaeth ychwanegol a grëir fel rhan o'r targedau gofynnol yn cael ei staffio'n briodol, a bod y clwstwr Cymraeg yn parhau i ffynnu o dan ddatblygiad rhagorol y gweithlu a chynllunio olyniaeth sy'n briodol ar draws holl sectorau a phartneriaid y Gwasanaeth Addysg.

Mae'r amserlin o 10 mlynedd yn caniatáu amserlen i ddechrau gweld cyn-ddisgyblion cyfrwng Cymraeg yn dod yn ôl fel athrawon yn Ysgolion Casnewydd.

O ran Coleg Gwent, mae nod i sicrhau cynnydd o 100% yn nifer y staff academiaidd rhugl ac uwch eu sgiliau Cymraeg (o'r lefelau presennol ym mis Mehefin 2021). Mae'r targedau 10 mlynedd fel a ganlyn:

Rhugl	Uwch
12	28

Bydd y cynnydd hwn yn galluogi'r coleg i gynnig modiwlau Cymraeg a dwyieithog ym mhob maes blaenoriaeth cwricwlwm fel y'i pennir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'r meysydd blaenoriaeth fel a ganlyn:

- Gofal Plant
- Twristiaeth a lletygarwch
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Seiliedig ar y Tir
- Gwasanaethau Cyhoeddus
- Busnes, TG a'r Cyfryngau
- Chwaraeon

Bydd y camau a nodwyd er mwyn cyflawni targedau 5 mlynedd y coleg yn cael eu hymestyn i'r ail gam i gefnogi'r cynnydd yn erbyn targedau 10 mlynedd Coleg Gwent.

Sut fyddwn yn gweithio gydag eraill i gyflawni ein gweledigaeth

Mae'r CSCA hefyd yn nodi gofyniad i bob awdurdod lleol sefydlu Fforwm Addysg Gymraeg (FFAG). Mae Fforwm Addysg Gymraeg yn creu sianel gyfathrebu ffurfiol rhwng Cyngor Dinas Casnewydd, ei hysgolion a gynhelir a sefydliadau partner eraill sydd â diddordeb mewn addysg Gymraeg yng Nghasnewydd ar faterion sy'n ymwneud â'r Strategaeth Addysg Gymraeg a'r CSCA.

Yn benodol, mae'r Fforwm yn:

- Gweithredu fel grŵp ymgynghorol ar gyfer datblygu'r CSCA;
- Monitro'r gwaith o weithredu'r CSCA;
- Monitro'r addysg Gymraeg a ddarperir a gweithredu fel grŵp ymgynghorol ar gyfer datblygiadau'r dyfodol, a;
- Rhoi adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru sy'n disgrifio cynnydd o ran gweithredu targedau'r CSCA yn erbyn yr amserlen a gymeradwywyd.

Y Prif Swyddog Addysg sy'n cadeirio Fforwm Casnewydd gydag aelodaeth yn cynnwys:

- Swyddogion o Gyngor Dinas Casnewydd
- Penaethiaid o ysgolion cynradd ac uwchradd Cymraeg a Saesneg Casnewydd
- Mudiad Meithrin
- Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG)
- Urdd Gobaith Cymru
- Menter Iaith Casnewydd
- Y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar gyfer y de-ddwyrain;
- Coleg Gwent
- Prifysgol De Cymru
- Llywodraeth Cymru

Datblygwyd is-grŵp o'r Fforwm i helpu hyrwyddo addysg Gymraeg. Bydd yr is-grŵp yn datblygu strategaethau i hyrwyddo Addysg Gymraeg yng Nghasnewydd. Caiff cynllun gweithredu ei ddatblygu a chaiff cynnydd o ran camau gweithredu ei fonitro'n rheolaidd. Yn benodol, bydd yr is-grŵp yn:

- Codi ymwybyddiaeth o addysg Gymraeg trwy ddatblygu calendr blynyddol o ddiwyddiadau;
- Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau y gellir penodi staff cymwys priodol, a;
- Gwella gwefannau perthnasol a pharhau i ddatblygu llyfrgell o ddeunydd hyrwyddo.